

Y  
Comisiwn  
Etholiadol

# Canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Rhan 3 – Canfas Blynyddol

Mehefin 2019



**SAA**

*Scottish Assessors Association*

## Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid
Medi 2013	Cyhoeddwyd yn wreiddiol
Mai 2015	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2015 a'r cyfnod cyn pleidleisiau Mai 2016
Tachwedd 2015	Adolygwyd i ddangos dod a diwedd y cyfnod pontio ymlaen i fis Rhagfyr 2015
Gorffennaf 2017	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2017; er mwyn dileu cyfeiriadau at etholwyr nad ydynt wedi'u cofrestru'n unigol; ac er mwyn adlewyrchu Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016
Mehefin 2017	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2017; i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol a gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol; i adlewyrchu'r broses o drosglwyddo swyddogaethau gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet <sup>i</sup> ; i ymgorffori canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol mewn Bwletin ar etholiadau yn ysotd y cyfnod canfasio (Pennod 2); i amseru cyhoeddiad y gofrestr ddiwygiedig (Pennod 5); ac etholiadau a gynhelir yn syth ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig (Pennod 5); i adlewyrchu Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2017; ac i ychwanegu dolenni i enghreifftiau o arfer da o ran cofrestrriad etholiadol.
Mawrth 2018	Diweddariad: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ar gyfer canfas 2018</li> <li>• cymryd i ystyriaeth o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (GDPR) (mewn grym o 25 Mai 2018) a'r Bil Diogelu Data</li> <li>• adlewyrchu'r Gorchymyn Awdurdodau Cyfun (Etholiadau Maerol) 2017 sy'n darparu yn unol ag etholiadau eraill, mae'n rhaid i danysgrifiwr ymddangos ar y gofrestr berthnasol mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflawni enwebiadau yn hytrach nag ar yr amser y dosberthir yr enwebiad (troednodiadau, a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa flaenorol, dilëwyd ym mharagraffau <b>2.72</b>, <b>5.27</b> a <b>5.33</b>)</li> </ul>

<sup>i</sup> Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Etholiadau, Refferenda, Trydydd Sector a Gwybodaeth) 2016

Mehefin 2018	Diweddarwyd i adlewyrchu Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2018, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2018 sy'n ehangu'r amgylchiadau y gellir dileu person oddi ar y gofrestr yn seiliedig ar un darn o dystiolaeth (yn weithredol o 1 Gorffennaf 2018)
Mehefin 2019	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2019.

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Ynglŷn â'r canllawiau hyn.....</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Cynllunio ar gyfer y canfas .....</b>	<b>3</b>
	Adolygu a diweddarau eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynlluniau cofrestru .....	5
	Paratoi eich cofrestr ar gyfer y canfas .....	6
	Adolygu eich cronfa ddata cyfeiriadau .....	9
	Cyflenwi Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru .....	10
	Cyflenwi drwy'r post .....	10
	Cyflenwi gan ganfaswyr .....	11
	Danfon drwy e-bost .....	11
	Cynllunio ar gyfer y prosesau dilynol sydd eu hangen yn ystod y canfas.....	12
	Ardaloedd canfas neu 'gylchoedd' .....	14
	Recriwtio a hyfforddi staff.....	14
	Recriwtio canfaswyr .....	15
	Hyfforddi canfaswyr .....	15
	Recriwtio a hyfforddi staff rheng flaen.....	16
	Etholiadau yn ystod y canfas.....	17
	Targedu etholwyr.....	18
	Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau a gynhelir yn ystod y canfas ....	20
<b>3</b>	<b>Beth i'w anfon a phryd.....</b>	<b>22</b>
	Ffurflenni i'w hanfon yn ystod y canfas .....	22
	Y Ffurflen Ymholiad y Cartref .....	25
	Ffurflenni Ymholiad y Cartref rhagargraffedig .....	25
	Ffurflenni Ymholiad y Cartref gwag.....	26
	Y llythyr esboniadol.....	27
	Amlen ateb .....	27
<b>4</b>	<b>Ymatebion i Ffurflenni Ymholiad y Cartref.....</b>	<b>28</b>
	Dulliau ymateb .....	28
	Datganiad o wirionedd.....	28

Prosesu ymatebion Ffurflen Ymholiad y Cartref .....	29
Dim newidiadau .....	29
Enwau etholwyr presennol a gofrestrwyd wedi eu dileu .....	30
Ychwanegiadau .....	32
Newidiadau i fanylion etholwyr presennol .....	33
Cais am newidiadau i ddewisiadau pleidlais absennol a chofrestr agored .....	35
Dileadau yn deillio o wybodaeth ar Ffurflen Ymholiad y Cartref.....	37
Prosesau olrhain lle na chafwyd ymateb .....	39
‘Nodiadau atgoffa’ Ffurflen Ymholiad y Cartref .....	39
Gwneud o leiaf un ymweliad.....	40
Cosb am fethu ag ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref neu ddarparu gwybodaeth ffug .....	41
<b>5 Cyhoeddi'r gofrestr .....</b>	<b>43</b>
Hysbysiadau misol o newid .....	43
Amseriad cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.....	43
Cynnwys y gofrestr ddiwygiedig.....	45
Y gofrestr lawn.....	46
Y gofrestr a gafodd ei golygu .....	47
Fformat y gofrestr .....	48
Marcwyr y gofrestr.....	48
Gohebiaeth yn dilyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig .....	51
Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau a gynhelir ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.....	51
<b>6 Ar ôl cyhoeddi.....</b>	<b>56</b>
Data .....	56
RPF 29.....	56
Mynediad a darparu .....	57

# 1 Ynglŷn â'r canllawiau hyn

1.1 Dyma drydedd ran y canllawiau cynhwysfawr a gynhyrchwyd gennym i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth iddynt gynllunio ar gyfer a chyflenwi gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Dylid eu darllen ar y cyd â [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) sydd wedi ei groesgyfeirio mewn manau perthnasol drwy gydol y Rhan hon.

1.2 Cyfeirir y canllawiau at Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r dyletswyddau maent yn eu cyflawni. Gan y gall y dyletswyddau hyn yn ymarferol gael eu gwneud gan ddirprwyon a/neu staff a benodwyd, defnyddiwn y term 'chi' trwy'r canllawiau hyn i olygu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a phwy bynnag sy'n cynnal swyddogaethau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar eu rhan. Drwy gydol y ddogfen hon rydym yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'gallai/dylai' ar gyfer arfer a argymhellir.

1.3 Datblygwyd y canllawiau drwy ymgynghori'n agos ag aelodau o Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA), Bwrdd Cydweithredu a Chynghori Etholiadol y DU (ECAB) a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda (ERRWG). Maent yn adlewyrchu goblygiadau cyfreithiol y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r hyn yr ydym ni, yr AEA, SOLACE, yr SAA, yr ECAB ac ERRWG yn credu y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddisgwyl o'u staff wrth gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda.



Mae'r canllawiau sy'n ymwneud â Deddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015 wedi'u datblygu mewn cydweithrediad agos â'r SAA, yr AEA a Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban (yr EMB), ac mae'n adlewyrchu'r hyn y mae'r SAA, yr AEA a'r EMB yn credu y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban ei ddisgwyl o'u staff wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau cofrestru etholiadol wedi'u rhedeg yn dda mewn perthynas ag etholwyr ifanc, a darparu'r gwasanaethau hynny. Caiff unrhyw ystyriaethau neu wahaniaethau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon eu hamlygu mewn blychau penodol fel hwn drwy'r canllawiau.

1.4 Mae'r canllawiau yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff 1.8 o [Ran 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#). Byddwn yn darparu canllawiau a chymorth pellach i Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan wneir unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth ac yn diweddaru'r Rhannau perthnasol o'r canllawiau fel sy'n briodol. Cynhwysir cyfeiriadau deddfwriaethol drwy gydol y canllawiau fel nodiadau diwedd. Gan fod dwy fersiwn o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001: un ar gyfer Cymru a Lloegr, ac un ar gyfer yr Alban; cyfeirir at ddwy fersiwn y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae "Regulation 26(1)(j) 2001 Regulations, RPR (Scotland) 2001" yn cyfeirio at

Regulation 26(1)(j) yn fersiwn Cymru a Lloegr a fersiwn yr Alban o Reoliadau 2001.

1.5 Yn dilyn y cynlluniau peilot y canfas a gynhaliwyd yn 2016 a 2017 oherwydd Gorchymyn Cynlluniau Peilot Cofrestru Etholiadol (Cymru a Lloegr) 2017, Gorchymyn Cynlluniau Peilot Cofrestru Etholiadol (yr Alban) 2017, a Gorchymyn Cynlluniau Peilot Cofrestru Etholiadol (Lloegr) (Diwygio) 2017 a ganiataodd amrywio ymagweddau tuag at y canfas mewn ardaloedd penodol, nid oes unrhyw gynlluniau peilot yn digwydd yn 2019. Felly bydd angen i EROs sydd wedi bod yn rhan o'r cynlluniau peilot hyn gynnal canfas llawn ar gyfer 2019 yn unol â'r holl ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y canllaw hwn.

1.6 Byddwch yn gweld y cyfeiriadau at y [fframwaith safonau perfformiad](#) wedi'u hymgorffori trwy gydol y canllawiau hyn. Bwriad cyffredinol y fframwaith safonau perfformiad yw cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer a chyflwyno gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Datblygwyd y fframwaith o amgylch y canlyniadau allweddol o safbwynt sicrhau bod pob person sy'n gymwys yn gallu cymryd rhan yn y broses etholiadol, pe baent am wneud, a chawl cofrestrau etholiadol sydd mor gywir (gan gynnwys sicrhau nad oes cofnodion twyllodrus ar y gofrestr etholiadol) a chyflawn â phosibl.

1.7 Bydd ein canllawiau, offerynnau a thempledi, ynghyd â chefnogaeth a ddarperir gan ein timau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yn parhau i'ch helpu i gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Mae'r offerynnau a thempledi rydym wedi eu gwneud ar gael wedi'u hamlygu mewn blychau penodol yn y canllawiau.



Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r AEA a'r SAA er mwyn nodi enghreifftiau o arfer da yn y broses gofrestru etholiadol. Mae'r adnoddau canlynol wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac maent wedi'u hamlygu mewn blychau penodol yn y canllawiau..

- [Defnyddio llechi yn y broses gofrestru etholiadol](#)
- [Cyfathrebu](#)
- [Cyrraedd trigolion cartrefi gofal](#)
- [Canfasio personol effeithiol](#)
- [Annog ymatebion](#)
- [Cyrraedd myfyrwyr](#)
- [Defnydd effeithiol o ddata sydd ar gael](#)
- [Rheoli prosesau cofrestru yn effeithiol](#)

Roedd ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn cynnwys arfer da mewn perthynas â diogelu data.

## 2 Cynllunio ar gyfer y canfas

2.1 Er mwyn cyflenwi'n effeithiol wasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda, bydd angen i chi fod â dogfennau cynllunio prosiect cadarn yn eu lle sy'n cael eu hysbysu gan ddealltwriaeth glir o'r heriau cofrestru yn eich ardal chi.

2.2 Dylai eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd nodi eich heriau a'r dull ar gyfer ymdrin â hwy. Dylai eich cynllun cofrestru gael ei hysbysu gan eich strategaeth ymgysylltu a dylai ddal pob peth sydd angen ei wneud drwy gydol y canfas a thrwy gydol y flwyddyn gan gynnwys y cyfnod yn arwain i fyny at unrhyw etholiadau a drefnwyd, er mwyn gallu cynhyrchu cofrestrau etholiadol sydd mor gywir a chyflawn ag y bo modd.

2.3 Mae canfas yn cynnwys y canlynol:

- Bydd angen anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref (HEF) i bob cartref <sup>1</sup>, a bydd angen i chi anfon gwahoddiad i gofrestru (ITR) i'r rheiny sydd wedi cael eu hychwanegu at Ffurflen Ymholiad y Cartref <sup>2</sup>, yn ogystal â dilyn i fyny gydag unrhyw Ffurflen Ymholiad y Cartref a Gwahoddiad i Gofrestru i'r rheiny nad ydynt wedi ymateb<sup>3</sup>.
- Os yw enw etholwr presennol wedi cael ei groesi oddi ar Ffurflen Ymholiad y Cartref, byddwch yn defnyddio hyn fel ysgogiad i wirio hawl y person hwnnw i aros yn gofrestredig.



Mae'r Ffurflen Ymholiad y Cartref a'r Gwahoddiad i Gofrestru gwag ac wedi eu rhagargraffu a ffurflen cofrestru pleidleiswyr y mae'n rhaid i chi eu defnyddio ar gael ar ein [gwefan](#). Mae'r rhain wedi cael eu diweddarau i roi negeseuon diwygiedig ynghylch diogelu data o ystyried deddfwriaeth diogelu data, a dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf pan fydd ar gael ar ein gwefan.

Mae ein canllawiau ffurflenni a llythyron yn gosod pa rannau o'r Ffurflen Ymholiad y Cartref (a ffurflenni cofrestru etholiadol eraill) y dylid eu defnyddio'n union fel y'u darperir a pha rannau y gellir eu haddasu. Mae'r canllawiau [ffurflenni](#) a [llythyron](#) ar gyfer Cymru a Lloegr ar gael i lawrlwytho o'n [gwefan](#).

2.4 Nid oes gofyn bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref at gyfeiriad penodol mewn rhai amgylchiadau rhagnodedig:

- Yn ystod y canfas, nid oes gofyn cyfreithiol bellach bod Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i gyfeiriad (na chynnal y prosesau dilynol os oes Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi'i hanfon eisoes) os ydynt wedi penderfynu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer y cyfeiriad hwnnw, a bod yr



ymgeisydd wedi nodi mai nhw yw'r unig breswlydd sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban).<sup>4</sup>

- Tu allan i gyfnod y canfas, lle bo Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi penderfynnu cais cofrestru ar gyfer cyfeiriad yn llwyddiannus, a bod yr ymgeisydd wedi nodi mai nhw yw'r unig breswlydd sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban), nid oes gofyn cyfreithiol bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref fel rhan o'r canfas blynyddol nesaf.<sup>5</sup>



Ceir rhagor o ganllawiau manwl ar yr amgylchiadau rhagnodedig lle nad oes gofyn i Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i gyfeiriad penodol ym **Mhennod 3 - Beth i'w anfon a phryd**.



Yn yr Alban, bydd y gofrestr llywodraeth leol yn cynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed fel etholwyr llawn. Hefyd, mae gan bobl ifanc 15 oed a rhai 14 oed hawl i gael eu cynnwys ar y gofrestr llywodraeth leol fel 'cyrhaeddwr'. At ddiben y gofrestr llywodraeth leol yn yr Alban, cyrhaeddwr yw rhywun sy'n cael ei ben-blwydd yn 16 oed erbyn diwedd y deuddeg mis ar ôl y 1 Rhagfyr ar ôl y 'dyddiad perthnasol' (ceir rhagor o wybodaeth am y 'dyddiad perthnasol' ym Mhennod 3 o [Rhan 2: Fframwaith cofrestru](#)).

Yn yr Alban, felly bydd y Ffurflen Ymholiad y Cartref yn casglu gwybodaeth am y sawl sy'n 14 oed a hŷn, a bydd angen anfon gwahoddiad i gofrestru at bobl ifanc 14 a 15 oed cymwys sydd wedi'u hychwanegu i'r Ffurflen Ymholiad y Cartref (h.y. y sawl a fydd yn cael eu pen-blwydd yn 16 erbyn diwedd y deuddeg mis ar ôl y 1 Rhagfyr ar ôl y 'dyddiad perthnasol'.

2.5 Bydd yr hyn a ddysgwyd gennych wrth weinyddu canfas 2018, gan gynnwys anfon Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru a chwblhau'r prosesau dilynol angenrheidiol, yn hynod werthfawr ar gyfer hysbysu eich cynlluniau sy'n nodi sut y gellir cyflenwi canfas 2019 yn llwyddiannus.



Os hoffech allu defnyddio ymarferion paru data lleol fel rhan o'r diwygiadau i'r canfas yn 2020, bydd angen i chi gynnwys paratodau ar gyfer profi data lleol a chenedlaethol fel rhan o'ch cynllun ar gyfer canfas 2019 er mwyn sicrhau eich bod yn barod.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi darparu canllawiau ar y paratodau a'r prosesau hyn yn [Rhan II – Profi data lleol](#).

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymarfer paru data cenedlaethol a fydd yn rhan o brawf data diwygio'r canfas yn gynnar yn 2020, gweler [Rhan I – Canllawiau ar brawf data diwygio'r canfas](#)

# Adolygu a diweddaru eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynlluniau cofrestru



Ceir canllawiau cyffredinol ar adolygu a diweddaru eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynlluniau cofrestru yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#). Mae'r adran hon yn ymdrin ag ystyriaethau sy'n benodol i baratoi ar gyfer canfas 2019.

2.6 Byddwch wedi bod yn cadw eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd dan adolygiad a gwerthuso llwyddiant y gweithgaredd yr ydych wedi ei wneud hyd yn hyn. Cyn canfas 2019, dylech gymryd y cyfle i gynnal adolygiad llawn o'ch strategaeth, adlewyrchu ar eich profiadau o ran canfas 2018 ac mewn etholiadau a drefnwyd, a nodi yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac nad yw wedi gweithio'n dda, cyn penderfynu ar gynllun gweithredu ar gyfer y canfas a thu hwnt. Bydd hyn yn eich helpu i dargedu eich adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Gall partneriaid presennol roi adborth i chi ar sut y mae eich strategaeth wedi gweithio'n ymarferol ac efallai y byddant hefyd yn gallu rhoi awgrymiadau i chi ynghylch pa ardaloedd neu ddemograffeg sydd o bosibl angen eu targedu yn y cyfnod canfas a sut y gellid gwneud hyn.

2.7 Dylai eich cynlluniau cofrestru manwl adlewyrchu eich strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r canfas i annog y rhai sy'n derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref a/neu Wahoddiad i Gofrestru i ymateb. Y cliriau yn y byd yw'r neges a'r 'alwad i weithredu', y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd pobl yn ymateb, a fydd yn ei dro yn helpu i sicrhau bod y gofrestr ddiwygiedig y byddwch yn ei chyhoeddi mor gywir a chyflawn ag y bo modd. Trwy ddarparu negeseuon clir i'r cyhoedd, byddwch hefyd yn helpu i leihau nifer yr ymholiadau a dderbynnir oddi wrth breswylwyr, gan ryddhau amser staff i ddelio â gweinyddu'r canfas.

2.8 Dylai eich cynlluniau ymdrin â sut y byddwch yn ymgysylltu â phreswylwyr yn ystod y canfas drwy gyswilt uniongyrchol, hysbysebu lleol a gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys grwpiau cymunedol a allai hybu cofrestru. Dylech hefyd ystyried cydweithio ag awdurdodau cyfagos gyda heriau tebyg er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ac i rannu adnoddau.



Yn yr Alban, bydd angen i'ch strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd gynnwys sut y byddwch yn nodi ac yn targedu pobl ifanc 14 a 15 oed cymwys, gan adlewyrchu'r ffaith y gallant wneud cais i gael eu cofrestru fel cyrhaeddwr ar y gofrestr llywodraeth leol. Dylai eich profiadau yn ystod canfas 2018 ac yn ystod y cyfnod yn arawin at etholiadau Senedd yr Alban 2016 ac etholiadau cyngor lleol 2017 lywio eich dull gweithredu.

2.9 Dylech adolygu eich cynlluniau cofrestru o ganlyniad i'ch profidaau gyda chanfas 2018, gan asesu p'un a bod gennych ddigon o adnoddau, gan gynnwys nifer y canfaswyr, i gynnal y prosesau angenrheidiol yn effeithiol. Bydd eich cynlluniau hefyd angen cynnwys ystyriaethau ymarferol i'ch helpu i gyflawni eich strategaeth ymgysylltu, megis:

- eich gofynion argraffu, gan gynnwys nifer y Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru y byddwch eu hangen
- eich gofynion TG



Ceir canllawiau cyffredinol ar adolygu a diweddarau eich cynlluniau cofrestru yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#).

Mae [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#) hefyd yn cynnwys canllawiau ar gynhyrchu cyfathrebiadau clir effeithiol, ac yn cynnwys nifer o ddolenni i daflenni ffeithiau tactegau ar gyfer targedu a chyfathrebu â grwpiau heb gofrestru, megis pobl ifanc, myfyrwyr a rhentwyr preifat.

Gallwch hefyd ddefnyddio ein hadnoddau a thempledi ar gyfer eich cyfathrebu. Cynhyrchwyd y rhain gennym ar ôl cynnal arbrofion, ac maent wedi eu cynllunio gydag effaith a hygyrchedd mewn golwg. Mae pob un o'r templedi ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd wedi darparu ystod o adnoddau ymgysylltu democrataidd ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl a lleoliadau. Cawsant eu datblygu ar y cyd â nifer o sefydliadau cenedlaethol. Gallwch weld eu hadnoddau yma: <https://www.gov.uk/government/collections/democratic-engagement-resources>.



#### Rhannu arfer da

Ceir gwybodaeth am ddefnyddio dulliau rheoli ac enghreifftiau ohonynt yn ein hadnodd 'Rheoli prosesau cofrestru yn effeithiol'.

Ceir gwybodaeth am ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd gan rai Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ysgogi a chymell pobl i weithredu ac enghreifftiau ohonynt yn ein hadnodd '[Cyfathrebu](#)'. Hefyd, ceir enghreifftiau o weithio gyda grwpiau penodol yn ein hadnoddau '[Cyrraedd myfyrwyr](#)' a '[Cyrraedd trigolion cartref gofal](#)'..

## Rheoli contractwyr a chyflenwyr

2.10 Bydd hefyd angen i'ch cynlluniau ddangos eich bod yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y cânt eu prosesu'n gyfreithlon,

yn deg ac mewn modd tryloyw. Mae hyn yn cynnwys pan fydd contractwr neu gyflenwr yn prosesu data personol ar eich rhan.

2.11 Er enghraifft, os byddwch yn defnyddio contractwr neu gyflenwr er mwyn llunio Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi, unrhyw wasanaeth ymateb awtomataidd i Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi, neu Wahoddiadau i Gofrestru, rydych yn defnyddio **'prosesydd'** i brosesu data personol ar eich rhan. Pryd bynnag y byddwch yn defnyddio **'prosesydd'**, bydd y ddeddfwriaeth diogelu data yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol i ffurfioli'r gydberthynas waith mewn cytundeb ysgrifenedig neu gontract sy'n nodi'r canlynol:

- pwnc, natur a diben y prosesu;
- rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd data;
- hyd y gweithgareddau prosesu;
- y mathau o ddata personol a chategoriâu o wrthrychau'r data.

2.12 Yn ogystal, mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i'r contract osod rhwymedigaethau penodol ar y prosesydd, yn cynnwys sicrhau ei fod yn:

- cydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau
- darostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- cadw data personol yn ddiogel ac yn eich hysbysu am unrhyw achos o dorri'r rhwymedigaeth hon
- cynnal cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu y bydd yn eu cynnal ar eich rhan
- defnyddio is-brosesydd gyda'ch cydsyniad yn unig
- cyfrannu at archwiliadau ac arolygiadau a rhoi pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen arnoch er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data
- dileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol atoch i chi yn ôl y gofyn ar ddiwedd y contract



Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn amlygu pwysigrwydd cael proses prawf ddarllen gadarn ar waith wrth weithio gyda phrosesydd er mwyn canfod unrhyw wallau ac osgoiachosion o dorri'r rheoliad ynghylch data cyn iddynt ddigwydd.

Rydym wedi [llunio taflen ffeithiau](#) ar gyfer prawf ddarllen y gallwch ei defnyddio i'ch helpu i sicrhau ansawdd eich prosesau. Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio ar gyfer [datblygu contractau](#) i'ch helpu wrth weithio gyda chontractwyr/cyflenwyr.

## Paratoi eich cofrestr ar gyfer y canfas

2.13 Mae gennych ddyletswydd i gynnal y gofrestr.<sup>6</sup> Er mwyn sicrhau bod eich cofrestr mor gywir a chyflawn ag y bo modd, dylech wirio, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, fod y rhai sydd wedi cofrestru yn parhau i fod â'r hawl i gael eu cofrestru mewn cyfeiriad penodol.

2.14 Dylech sicrhau bod gennych fynediad at gofnodion lleol. Mae'r cyfnod yn arwain at y canfas yn rhoi cyfle i chi gynnal gwiriadau o gofnodion sydd ar gael i chi er mwyn eich helpu i benderfynu p'un a yw etholwyr yn parhau i fod â hawl i fod yn gofrestredig. Bydd gwiriadau o'r fath yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cynnal y canfas ar y wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael.



### Rhannu arfer da

Ceir gwybodaeth am sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio ffynonellau data presennol er mwyn helpu i sicrhau bod cofrestrau mor gywir ac mor gyflawn â phosibl yn ein hadnodd '[Defnydd effeithiol o'r data sydd ar gael](#)'.

2.15 Os yw gwiriad o gofnodion eich cyngor eich hun (yn cynnwys y cyngor sir os ydych yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer cyngor dosbarth mewn ardal dwy haen) neu gofnodion person neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'ch cyngor yn dangos bod etholwr wedi marw, gallwch ddileu'r cofnod hwnnw oddi ar y gofrestr yn awtomatig os byddwch yn fodlon bod yr etholwr wedi marw.<sup>7</sup>

2.16 Os bydd archwiliad o unrhyw gofnodion lleol yn dangos nad yw etholwr yn byw mewn cyfeiriad mwyach ac na chofnodwyd ei fod wedi marw, bydd gennych **un** o'r ddwy ffynhonnell o dystiolaeth sydd ei hangen arnoch cyn y gallwch ddileu cofnod oddi ar y gofrestr heb adolygiad cofrestru.

2.17 Efallai y bydd gennych hefyd fynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â gweinyddiaeth etholiadau Mai 2019 neu isetholiad diewddar, a allai awgrymu nad oes gan rywun bellach yr hawl i fod wedi'i gofrestru mewn cyfeiriad penodol, ac a allai roi i chi un o'r ffynonellau gofynnol o dystiolaeth. Os nad y chi hefyd yw'r Swyddog Canlyniadau, dylech gysylltu â hwy yn awr i sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth am ddeunydd ysgrifennu'r etholiad sydd wedi cael ei ddychwelyd (er enghraifft, cardiau pleidleisio) fel rhai heb eu dosbarthu.

2.18 Os oes gennych eisoes un ffynhonnell o dystiolaeth, ac yna dychwelir y Ffurflen Ymholiad y Cartref yn ystod y canfas gyda'u henw wedi'i ddileu am nad ydynt yn byw yn y cyfeiriad hwn mwyach, gallai hyn roi i chi'r ail ffynhonnell ofynnol o dystiolaeth. Os byddwch yn penderfynu nad oes gan yr etholwr bellach hawl i gael ei gofrestru, byddwch yn gallu ei ddileu oddi ar y gofrestr.

2.19 Fel arall, os yw eich cofnodion lleol yn dangos nad yw etholwr bellach yn preswyllo yn y cyfeiriad, gallech gynnal adolygiad o hawl yr etholwr i aros yn gofrestredig cyn y canfas.



Ceir canllawiau ar Ffurflenni Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd gydag enwau etholwyr cofrestredig presennol wedi'u croesi i fwrdd neu wybodaeth a all arwain at ddilead, ym mharagraffau **4.11** i **4.16** a pharagraffau **4.46** i **4.53**.

Ceir canllawiau manwl ar ddileadau ac ar weinyddu adolygiadau cofrestru ym Mhenodau 9 a 10 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn](#).

## Adolygu eich cronfa ddata cyfeiriadau

2.20 Dylech hefyd gymryd camau i sicrhau bod eich cronfa ddata cyfeiriadau yn aros yn gyfredol. Dylai pob cyfeiriad fod â rhif cyfeirnod eiddo unigryw (UPRN) a dylech gysylltu â'r tîm Cofrestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) yng Nghymru a Lloegr neu'r tîm Mynegai Cyfeiriadau Corfforaethol (CAG) yn yr Alban sicrhau bod UPRNs ynghlwm wrth bob eiddo yn eich ardal chi.



Bydd y broses o gynnal cofrestr gywir yn hyd yn oed yn bwysicach wrth baratoi i ddiwygio'r canfas.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi darparu canllawiau ar bwysigrwydd UPRNs a chyfeiriadau cyfredol a rhai paratodau a phrosesau eraill a awgrymir y gellir eu rhoi ar waith cyn prawf paru data lleol. Mae'r rhain i'w gweld yn [Rhan II – Profi data lleol](#)

I gael rhagor o wybodaeth am baratodau ar gyfer y profion data diwygio'r canfas cenedlaethol a gynhelir yn gynnar yn 2020, gweler [Rhan I – Canllawiau ar brawf data diwygio'r canfas](#)

## Ystyriaethau amser ar gyfer 2019

2.21 Mae 1 Rhagfyr 2019 yn ddydd Sul. Oni chafwyd etholiad yn ystod cyfnod y canfas, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, lle y bo'n ymarferol, gyhoeddi eu cofrestr ddiwygiedig ddydd Sul 1 Rhagfyr.

2.22 Drwy gyhoeddi'r gofrestr ddydd Sul 1 Rhagfyr 2019, gellir gwneud y gorau o'r amser sydd ar gael ar gyfer derbyn ceisiadau i gofresrtru a phenderfynu

armynt er mwyn eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig. Y dyddiad penderfynu fydd dydd Gwener 29 Tachwedd a'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau arferol fydd dydd Iau 21 Tachwedd.

2.23 Gan nad yw dydd Sul yn ddiwrnod gwaith fel arfer, efallai y bydd trefniadau ymarferol yn eich atal rhag cyhoeddi'r gofrestr ar ddydd Sul. Bydd angen i chi ystyried y gofynion posibl o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â gweithio ar ddydd Sul, fel agor adeiladau swyddfeydd, trefniadau staffio ac argaeledd cymorth TG os bydd angen.

2.24 Os byddwch, am ba reswm bynnag, yn penderfynu cyhoeddi ym mis Tachwedd, bydd angen i chi ystyried effaith dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau mewn pryd iddynt gael eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig ar gyfnod y canfas. Mae cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ym mis Tachwedd yn golygu na fyddai unigolyn sy'n gwneud cais cofrestru llwyddiannus ar ôl 23 Hydref yn cael ei ychwanegu at y gofrestr tan yr hysbysiad o newidiadau ym mis Ionawr 2020, heblaw yn achos etholiad.

## Cyflenwi Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru

2.25 Un o'r materion y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu hystyried wrth lunio eu cynllun canfas yw sut y bydd Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru yn cael eu cyflenwi. Dylech sicrhau eich bod yn ystyried y dulliau cyflenwi y byddwch yn eu defnyddio – gan ystyried eich profiadau gyda chanfas 2018 - wrth adolygu eich strategaeth ymgysylltu ac adlewyrchu hyn yn eich cynlluniau cofrestru. Dylech hefyd ystyried p'un a fydd gennych strategaeth a threfnidau danfon ar gyfer eiddo penodol, megis Tai Amfuddianaeth (TA), sefydliadau addysg mawr a chartrefi gofal. Gallech, er enghraifft ystyried p'un a byddai hi'n fwy effeithiol ar gyfer y sefydliadau hynny, eich bod yn anfon canfasiwr profiadol i ymweld â'r eiddo o'r cychwyn, yn hytrach nag anfon ffurflen at y cyfeiriadau hyn.



### Rhannu arfer da

Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadau yn gwahanu cartrefi gofal oddi wrth eu gweithgarwch canfasio arall ac yn ymgysylltu â nhw yn unigol er mwyn sicrhau bod trigolion cartrefi gofal yn cofrestru'n gywir.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rheoli hyn yn ymarferol yn yr adnodd ['Cyrraedd trigolion cartrefi gofal'](#).

## Cyflenwi drwy'r post

2.26 Mae nifer fawr o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio gwasanaethau post i gyflenwi eu ffurflenni cychwynnol a nodiadau atgoffa (os oes angen).

2.27 Mae argaeledd gostyngiadau gan y Post Brenhinol a darparwyr gwasanaethau eraill yn golygu y gallai fod yn fwy cost effeithiol i gyflenwi ffurflenni cychwynnol a'r nodiadau atgoffa dilynol drwy'r post na chyflogi canfaswyr i wneud hynny.

2.28 Fodd bynnag, mae perfformiad y gwasanaeth post y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn ychwanegol, ni fydd newidiadau yn statws yr eiddo yn cael eu casglu a'u cyflwyno i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gan ddarparwyr gwasanaeth post.

2.29 Os ydych yn penderfynu defnyddio'r Post Brenhinol neu unrhyw ddarparwyr gwasanaethau post eraill, dylech gysylltu â hwy yn gynnar yn y broses gynllunio.

## Cyflenwi gan ganfaswyr

2.30 Gellir hefyd defnyddio canfaswyr i gyflenwi'r ffurflenni cychwynnol a'r nodiadau atgoffa dilynol â llaw. Mantais hyn yw y gall canfaswyr ddod yn gyfarwydd â'u hardal canfas cyn cysylltu â phreswylwyr yn ystod yr ymholiadau o dŷ i dŷ ac ymweliadau personol.

2.31 Efallai fod defnyddio canfaswyr i gyflenwi ffurflenni yn llafurus o ran amser Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gan fod rhaid recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo canfaswyr. Hefyd, gall hyn fod yn ddrutach na defnyddio gwasanaeth post, gan y collir unrhyw gyfle i gael prisiau gostyngol.

2.32 Bydd angen i chi benderfynu pa ddull sydd fwyaf addas i'ch ardal ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth. Efallai'n wir y bydd eich penderfyniad yn cael ei lywio gan amgylchiadau cymdeithasol neu ddaearyddol: er enghraifft, gallai ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth fod yn addas ar gyfer cyflenwi drwy'r post, tra gallai ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth fod yn fwy addas i gyflenwi â llaw. Ym mhob achos, rhaid cynnwys amlen radbost ar gyfer dychwelyd.<sup>8</sup>

## Danfôn drwy e-bost

2.33 Rhaid i Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi gael eu cyhoeddi ar ffurf papur yn y fformat a ragnodir ac ni ellir eu hanfon drwy e-bost na thrwy ddull electronig arall. Fodd bynnag, gallwch roi gwahoddiad i gofrestru drwy ddulliau electronig, gan gynnwys drwy e-bost.<sup>9</sup> Mae hyn yn golygu, yn hytrach nag anfon gwahoddiad i gofrestru i etholwyr posibl gyda ffurflen gofrestru pleidleisiwr ac amlen ymateb, gallwch (lle bo gennych eu cyfeiriad e-bost) anfon e-bost yn eu gwahodd i gofrestru gyda doler i [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio). Bydd angen i chi gysylltu â'ch cyflenwyr meddalwedd i sicrhau y gallwch goladu a defnyddio cyfeiriadu e-bost er mwyn defnyddio'r opsiwn yma'n effeithiol. Dylech hefyd nodi sut y byddwch yn sicrhau y caiff Gwahoddiadau papur i Gofrestru eu hanfon pan geir neges nad yw Gwahoddiad i Gofrestru dros e-bost wedi'i dderbyn.





Mae'r Gwahoddiad i Gofrestru ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ar gyfer yr Alban, y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio wedi'i gynnwys yn y ffolder 'llythyrau' sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

## Cynllunio ar gyfer y prosesau dilynol sydd eu hangen yn ystod y canfas

2.34 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi gymryd camau penodol i ddilyn unrhyw rai nad ydynt yn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref, gan gynnwys cyhoeddi dau nodyn atgoffa a gwneud ymweliad personol.<sup>10</sup> Hefyd bydd angen anfon Gwahoddiad i Gofrestru i unrhyw etholwyr newydd posibl a nodwyd ynghyd â ffurflen gais i gofrestru, a bydd angen i chi gymryd y camau penodol - anfon dau nodyn atgoffa ac ymweliad personol - i ddilyn i fyny unrhyw rai nad ydynt yn ymateb i Wahoddiad i Gofrestru.



I fodloni [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cynnal canfas llawn ac effeithiol o eiddo gan gynnwys gwneud ymweliadau personol gan ganfaswyr wedi'u hyfforddi, pan nad oes ymateb i ddeunydd cofrestru. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth cynllunio prosiect gynnwys:

- Amcanion a mesur llwyddiant
- Amserlen o'r canlyniadau a'r tasgau ar gyfer y canfas
- Gofynion adnoddau
- Nodi anghenion hyfforddi a darparu unrhyw hyfforddiant gofynnol
- Y mesurau gwerthuso sydd yn eu lle ar gyfer pob gweithgarwch a gynhelir



### Rhannu arfer da

Ceir gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir gan rai Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn sicrhau canfas llawn ac effeithiol o eiddo, ac enghreifftiau ohonynt, yn ein hadnodd '[Canfasio personol effeithiol](#)'.

2.35 Nid oes gofyn cyfreithiol bellach bod Swyddog Cofrestru Etholiadol i unrhyw ymatebion i Ffurflen Ymholiad y Cartref os ydynt wedi penderfynu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer y cyfeiriad hwnnw, a bod yr ymgeisydd wedi nodi mai nhw yw'r unig breswlydd sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 oed heu'n hŷn yn yr Alban).<sup>11</sup>



Ceir rhagor o ganllawiau ar yr amgylchiadau penodol a drefnwyd lle nad yw'n ofynnol i Swyddog Cofrestru Etholiadaol anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i gyfeiriad penodol ym **Mhennod 3 - Beth i'w anfon a phryd**.



Yn yr Alban, er bod y ddyletswydd yn Adran 9A i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod eich cofrestrau yn gywir ac yn gyflawn yn dal yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ fel rhan o'r canfas blynyddol wedi'i ehangu i bobl ifanc 14 a 15 oed. Nid oes angen cynnal ymweliad personol â phobl ifanc 14 neu 15 oed nad ydynt wedi ymateb i Wahoddiad i Gofrestru unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.<sup>12</sup>

Os na fyddwch yn ymweld â'r cartref, dylech ystyried pa ddulliau eraill y gallwch eu defnyddio i annog ymateb gan y rhai yn y grŵp oedran hwn. Er enghraifft, gallech gysylltu â phobl ifanc dan 16 oed drwy e-bost os oes gennych eu cyfeiriad e-bost. Hefyd, fel rhan o unrhyw weithgarwch dilynol ar ôl canfas, efallai y cewch gyfle i atgoffa unrhyw oedolion sy'n byw mewn cyfeiriad bod gan bobl ifanc 15 oed a rhai pobl ifanc 14 oed hawl i gofrestru gan ofyn iddynt annog unrhyw bobl ifanc 14/15 oed yn y cyfeiriad i wneud cais i gofrestru ar-lein.

Dylech hefyd weithio gyda phartneriaid sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc neu sydd â dylanwad arnynt ac adlewyrchu hyn yn eich cynlluniau. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 2 o [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflawni gweitharwch cofrestru etholiadol](#). Rydym wedi darparu canllawiau penodol ar ymgysylltu â phobl ifanc a chyrraeddwy'r yn ein [taflen tactegau enghreifftiol](#) ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed.

2.36 Ni fydd y prosesau hyn i gyd yn llinol, a bydd angen eu gwneud ar yr un pryd a bydd angen i chi benderfynnu sut fyddwch yn rheoli hyn. Er mwyn maximeiddio'r amser sydd gennych ar gael i gwblhau'r rhain cyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig, dylech ddechrau anfon eich Ffurflenni Ymholiad y Cartref cychwynnol cyn gynted ag y bo modd



#### **Rhannu arfer da**

Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhoi llechi electronig I ganfaswyr ac mae hyn wedi'u galluogi i symleiddio'r prosesau ar gyfer Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiad i Gofrestru. Ceir gwybodaeth am sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rheoli hyn yn ymarferol yn ein hadnodd '[Defnyddio llechi mewn proses cofrestru etholiadol](#)'.



Rydym wedi cynhyrchu [taflen grynodeb](#) sy'n darparu dyddiadau allweddol ar gyfer y canfas ac sy'n crynhoi'r prosesau y bydd angen i chi eu dilyn gan ddibynnu ar p'un a yw'r Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi ei dychwelyd.

## Ardaloedd canfas neu 'gylchoedd'

2.37 Gan gymryd i ystyriaeth eich profiadau yn ystod canfas 2018, bydd angen i chi ystyried y ffordd orau o ddefnyddio canfaswyr ar gyfer cyfnod canfas 2019 a thu hwnt, gan nodi beth fyddwch yn disgwyl iddynt wneud a phryd.

2.38 Dylech adolygu'r ardaloedd canfas, neu 'gylchoedd' a ddefnyddiwyd yn 2018 i sicrhau eu bod o'r maint optimwm— a all amrywio ledled yr ardal gofrestru – i helpu maximeiddio'r cyfraddau ymateb. Dylech ystyried y canlynol wrth benderfynu ar faint eich ardaloedd canfas:

- nifer yr eiddo yn yr ardal
- rhwyddineb mynediad at eiddo unigol yn yr ardal
- y nifer o ganfaswyr sydd ar gael i chi
- lefelau gweithgarwch dilynol, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, yr ydych yn disgwyl i ganfaswyr ei gynnal

2.39 Dylai ardaloedd canfas gael eu hadolygu wrth i'r canfas fynd yn ei flaen er mwyn sicrhau y gall canfaswyr gael eu dyrannu i gynnwys pob eiddo/unigolyn nad ydynt yn ymateb yn yr ardal gofrestru, fel y bo'n briodol.



Rydym wedi cynhyrchu [rhestr o gwestiynau](#) i chi eu hystyried wrth ddatblygu eich cynlluniau canfas personol.

## Recriwtio a hyfforddi staff

2.40 Bydd angen i chi recriwtio a hyfforddi staff yn ôl yr angen i wneud y canfas.

2.41 Mae'r awdurdod lleol sy'n penodi o dan rwymedigaeth gyfreithiol i roi'r staff angenrheidiol i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau statudol.<sup>13</sup>

2.42 Mae'n bwysig eich bod yn darparu hyfforddiant priodol i'r holl staff (rhai parhaol a dros dro) sy'n gweithio ar y canfas er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol.

2.43 Dylid cynnwys hyfforddiant diogelu data yn yr hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff, yn cynnwys canfaswyr. Bydd hyn yn eich helpu i ymgorffori egwyddorion diogelu data yn eich gwaith a dangos eich bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Caiff canllawiau ar ddangos cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth digoelu data eu cynnwys yn ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018.



I gyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod gofynion hyfforddi'r gwahanol staff sy'n rhan o'r broses o ddarparu yn cael eu diwallu. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth cynllunio prosiect gynnwys nodi anghenion hyfforddi a darparu unrhyw hyfforddiant gofynnol.

## Recriwtio canfaswyr

2.44 Gan adeiladu ar eich profiad o ganfas 2017 bydd angen i chi sefydlu faint o ganfaswyr fydd eu hangen a phryd, a rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod digon o staff yn gallu cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwyllo i gynnal yr ymholiadau o dŷ i dŷ ac ymweliadau personol. Dylai eich cynlluniau adlewyrchu hefyd sut, pryd ac ar ba sail y bydd canfaswyr sail yn cael eu talu.

2.45 Dylech fonitro perfformiad canfaswyr ac ni ddylid defnyddio unrhyw ganfaswyr y mae eu perfformiad yn y gorffennol wedi bod yn anfodddhaol. Dylech hefyd gofio efallai na fydd canfaswyr presennol neu brofiadol ar gael, ac efallai felly bydd angen i chi wneud ymarferion recriwtio ychwanegol, gan dargedu grwpiau newydd neu wahanol.

## Hyfforddi canfaswyr

2.46 Un o'r camau angenrheidiol i ddiben cydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal cofrestrau etholwyr llywodraeth leol a Senedd y DU fel y nodir yn Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yw 'darparu hyfforddiant i bobl o dan gyfarwyddyd neu reolaeth [y Swyddog Cofrestru Etholiadol] mewn cysylltiad â chyflawni'r ddyletswydd.'

2.47 Felly mae angen i chi sicrhau bod eich canfaswyr yn cael eu hyfforddi'n briodol i wneud y gwaith y penodwyd hwy i'w gyflawni. Efallai y bydd angen i chi gyflenwi sesiynau hyfforddi gwahanol, yn dibynnu ar sut y byddwch yn penderfynu defnyddio canfaswyr.

2.48 Mae angen hyfforddi'r holl ganfaswyr i gadw unrhyw wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu gan etholwyr yn ddiogel. Yn benodol, pan fo canfaswyr yn cael eu defnyddio i gynorthwyo etholwyr i gwblhau cais ar garreg y drws, rhaid eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant diogelu data priodol i sicrhau, pan fyddant yn casglu manylion personol sydd eu hangen ar gyfer cais, nad oes unrhyw un sy'n cerdded heibio yn gallu clywed unrhyw wybodaeth bersonol. Ceir manylion ar gynnal diogelwch data personol yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#).



Ceir rhagor o wybodaeth ar recriwtio a hyfforddi canfaswyr yn ein ['rhestr wirio recriwtio a hyfforddi canfaswyr'](#). Hefyd gellir gweld adnoddau i gefnogi rheolaeth a briffio canfaswyr ar ein [gwefan](#).

## Recriwtio a hyfforddi staff rheng flaen

2.49 Fel rhan o'ch cynllunio, dylech ystyried faint o staff fyddwch eu hangen i ymateb i ymholiadau, gan gynnwys yn ystod cyfnodau brig. Dylech sicrhau eich bod yn parhau i frifio'r staff rheng flaen ar y broses gofrestru. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn unrhyw ganolfannau cyswllt neu ganolfannau rheoli galwadau.

2.50 Bydd angen iddynt allu cyfeirio pobl at eu dewis sianel(au) ar gyfer cofrestru i bleidleisio a, lle bo'n briodol, eu cynorthwyo gyda'r broses gofrestru. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ymholiadau arferol a gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth i ymdrin ag amgylchiadau unigol person, a hefyd gallu nodi cwestiynau nad ydynt yn rhai arferol a chyfeirio'r rhain at staff sydd â gwybodaeth fanwl am gofrestru. Yn benodol, bydd unrhyw staff sy'n derbyn ceisiadau dros y ffôn neu'n bersonol yn ymdrin â data personol, a dylech sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi yn unol â hynny er mwyn sicrhau bod y data yn cael ei drin yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data.



Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â chynnal diogelwch data personol yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#).

2.51 Er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybodaeth gywir a chyson, dylai unrhyw staff sy'n gwneud gwaith cofrestru etholiadol ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir iddynt ar gyfer ateb cwestiynau ac ymdrin ag ymholiadau. I gefnogi staff rheng flaen rydym wedi cynhyrchu [dogfen cwestiynau cyffredin](#) sy'n ymdrin ag ystod o ymholiadau a all godi am gofrestru etholiadol. Gallwch addasu'r ddogfen hon er mwyn adlewyrchu materion lleol penodol gan gynnwys unrhyw rai a ddaeth i'r amlwg yn ystod canfas 2016 ac mewn unrhyw etholiadau a drefnwyd.



Yn yr Alban, bydd angen rhoi hyfforddiant priodol i bob aelod o staff rheng flaen er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gellir cynnwys pobl ifanc 14 a 15 oed ar y gofrestr llywodraeth leol fel cyrhaeddwyr. Er enghraifft, bydd angen i staff gael hyfforddiant a chanllawiau priodol yn ymwneud â thrin a storio data personol pobl ifanc 14 a 15 oed. Hefyd, dylai eich systemau fod wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau mai dim ond at y dibenion cyfyngedig a nodir yn y gyfraith y caiff data am bobl ifanc 14 a 15 oed eu defnyddio. Dylai eich profiadau yn ystod canfas 2018, ac yn y cyfnod yn arwain at etholiadau Senedd yr alban ac

etholiadau cyngor lleol lywio eich cynlluniau a'ch helpu i sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith.

## Etholiadau yn ystod y canfas

2.52 Fel gydag unrhyw ganfas, dylai eich cynlluniau ystyried y potensial ar gyfer cynnal etholiad yn ystod y cyfnod canfas gan fod hyn yn debygol o leihau faint o amser sydd ar gael i chi gymryd y camau angenrheidiol i olrhain y rhai nad ydynt wedi ymateb i Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru. Dylai eich cofrestr risg hefyd ymdrin â'r posibilrwydd o etholiad yn digwydd yn ystod canfas, gan gynnwys sut y byddwch yn ailddosbarthu adnoddau i dargedu cofrestru yn yr ardaloedd hynny lle mae etholiad.

2.53 Os cynhelir etholiad rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr 2019, gellir gohirio cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig tan **1 Chwefror 2020**.<sup>14</sup>

2.54 Diffinnir etholiad yn ystod y canfas fel unrhyw un o'r etholiadau canlynol, p'un a ydynt yn etholiad cyffredinol neu'n isetholiadau, lle mae dyddiad y bleidlais rhwng 1 Gorffennaf ac 1 Rhagfyr:<sup>15</sup>

- Etholiadau Senedd Ewrop neu'r DU
- Etholiadau Senedd yr Alban neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llywodraeth leol - unedol, sir, bwrdeistref sirol, dosbarth, bwrdeistref fetropolitan, bwrdeistref Llundain ac etholiadau meiri a etholir yn uniongyrchol
- Llywodraeth leol – etholiadau plwyf a chyngor cymuned yng Nghymru a Lloegr
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- Refferenda cynllunio cymdogaeth

2.55 Bydd angen i chi wneud penderfyniad gweithredol o ran p'un ai i ohirio cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ac, os felly, o faint. Wrth wneud eich penderfyniad, dylech ystyried effaith yr etholiad ar y prosesau canfasio yn yr ardal y mae'r etholiad yn effeithio arni a ledled yr ardal gofrestru yn fwy cyffredinol. Yn benodol, bydd angen i chi fod yn fodlon y bydd gennych ddigon o amser i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod eich cofrestrau mor gywir a chyflawn â phosibl ar yr adeg cyhoeddi. Mae'n debygol y bydd yr effaith ar y canfas yn dibynnu ar ba gam o'r canfas rydych wedi'i gyrraedd, a hefyd sawl dosbarth pleidleisio y mae'r etholiad yn effeithio arnynt.

2.56 Dylech hefyd ystyried yr effaith y gall gohirio cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ei chael ar brosesau canfasio. Er enghraifft, pan gaiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr, mae'n debygol y caiff y rhan fwyaf o'r gwaith canfasio personol ar gyfer rhai nad ydynt wedi ymateb ei wneud ym mis Hydref. Pan fydd y cyhoeddi wedi'i ohirio, a bod y canfas personol yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gall llai o oriau o olau dydd effeithio ar barodrwydd

canfaswyr i guro ar ddrysau, a'r sawl nad ydynt wedi ymateb i agor eu drysau. Gall tywydd gwael hefyd effeithio ar ganfas sydd wedi'i ohirio, a gall cyfraddau ymateb hefyd ostwng dros gyfnod y Nadolig.

2.57 Pan fyddwch yn penderfynu gohirio cyhoeddiad oherwydd etholiad, dylech gymryd camau i sicrhau bod pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr etholedig yn ymwybodol o'r dyddiad newydd ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr ar gam cynnar.

2.58 Fel y nodir ym Mhennod 5, efallai na chaiff hysbysiad o newid ei roi yn ystod y mis rydych yn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ac yn ystod y ddau fis cyn y diwrnod hwnnw. Pan gaiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi ar 1 Rhagfyr, mae hyn yn golygu na fydd hysbysiad o newid misol ym mis Hydref, Tachwedd na Rhagfyr. Fodd bynnag, os yw cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig wedi'i ohirio tan 1 Chwefror 2020 er enghraifft, byddwch yn cyhoeddi hysbysiad o newid misol ym mis Hydref a Thachwedd 2019, ond ni fydddech yn cyhoeddi un ym mis Rhagfyr 2019 nac ym mis Ionawr a Chwefror 2020.

Os byddwch yn penderfynu gohirio cyhoeddi'r gofrestr o ganlyniad i etholiad, dylech ystyried yr effaith ar amseriad profion data diwygio'r canfas. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi llunio [Rhan I – Canllawiau ar Brawf Data Diwygio'r Canfas](#), sy'n ymdrin â'r pwynt hwn.

## Targedu etholwyr

2.59 Os yw etholiad i'w gynnal yn ystod y canfas, bydd angen i'ch ffocws allweddol fod ar unrhyw etholwyr newydd a allai fod yn gymwys a nodwyd gennych sydd heb gofrestru eto a'u hannog i wneud cais mewn pryd i allu pleidleisio yn yr etholiad. Bydd hyn yn cynnwys etholwyr mewn cyfeiriadau lle'r ydych wedi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref wag ac etholwyr cymwys newydd posibl yr ydych wedi rhoi Gwahoddiad i Gofrestru iddynt. Dylech ystyried y ffordd orau i dargedu eich adnoddau i'r cyfeiriadau a'r unigolion hyn, gan gynnwys i olrhain ymatebion i unrhyw 'nodyn atgoffa' Ffurflenni Ymholiad y Cartref neu Wahoddiad i Gofrestru, er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o etholwyr cymwys yn cofrestru mewn pryd ar gyfer yr etholiad.

2.60 Dylai eich cynllun canfas nodi pa ddull y bydddech yn ei fabwysiadu petai etholiad yn ystod y canfas.

2.61 Er enghraifft, bydd sicrhau bod y dosbarth pleidleisio yn cael ei argraffu ar Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru yn eich galluogi i nodi a blaenoriaethu'n gyflym y ffurflenni hynny sy'n berthnasol os bydd etholiad mewn rhan o'r ardal gofrestru yn unig. Gallech hefyd gynnwys gwybodaeth arall sy'n ymwneud â chofrestru yn yr un amlen â'r Gwahoddiad i Gofrestru, megis gwybodaeth am y dyddiad cau cofrestru i etholiad sydd ar y gweill.

2.62 Pan fydd yr etholiad yn effeithio ar yr ardal gofrestru gyfan, bydd yn arbennig o bwysig bod eich adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o etholwyr cymwys yn cofrestru mewn pryd i gymryd rhan yn yr etholiad. Dylid gwneud pob ymdrech i gwblhau pob ymweliad Ffurflenni Ymholiad y Cartref ag eiddo nad ydynt wedi ymateb ymhell cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru, ond, o ystyried y cyfyngiadau amser ac yn dibynnu ar amseru'r etholiad, efallai na fydd hyn yn ymarferol o hyd. Dylech ddefnyddio cofnodion data lleol a'ch gwybodaeth am eich ardal leol er mwyn nodi unrhyw etholwyr newydd, yn cynnwys unrhyw eiddo lle mae'n debygol y gwnaed newidiadau. Yna, gellid blaenoriaethu'r rhain ar gyfer ymweliadau personol.

2.63 Dylai eich cynllun ymdrin â phethau fel:

- beth fydd rhaid i ganfaswyr ei wneud yn wahanol
- sut fydd staff canfas yn cael gwybod bod etholiad a chael eu cyfarwyddiadau diwygiedig
- beth a wnewch i geisio maxsimeiddio dychwelyd ffurflenni yn yr ardal(oedd) yr effeithir arnynt er mwyn gostwng y difreinio posibl
- sut y byddwch yn nodi a blaenoriaethu'r gwaith o brosesu Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru ar gyfer yr ardal(oedd) yr effeithir arnynt gan yr etholiad
- sut fydd y canfas yn aildddechrau ar ôl yr etholiad
- sut fydd y penderfyniad ynghylch pryd i gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn cael ei gymryd a pha ffactorau fydd yn cael eu hystyried, gan gadw mewn cof y gellir gohirio'r cyhoeddiad tan 1 Chwefror 2020
- sut y byddwch yn rhannu'r penderfyniad hwnnw â phleidiau gwleidyddol lleol, cynrychiolwyr etholedig ac unigolion a grwpiau eraill sydd â diddordeb

2.64 Dylai eich cynllunio fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i chi ailddyrrannu adnoddau staff (os oes angen) er mwyn helpu sicrhau bod cynifer o ffurflenni ag y bo modd yn cael eu casglu o'r ardal(oedd) berthnasol a'u dychwelyd i'r swyddfa gofrestru etholiadol mewn pryd i gael eu prosesu a'u penderfynu ar gyfer eu cynnwys yn yr hysbysiad newid etholiad terfynol. Fel y nodir ym Mhennod 2 o [Rhan 2: Fframwaith cofrestru](#), rhaid i'r awdurdod lleol a'ch penododd yn Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn ôl y gyfraith, roi'r adnoddau sydd eu hangen arnoch i gyflawni eich swyddogaethau statudol.

2.65 Yn eich cyfarwyddiadau i ganfaswyr, byddwch wedi darparu manylion ar ba mor aml y dylai ffurflenni gael eu dychwelyd i'r swyddfa gofrestru. Bydd angen i chi ei gwneud yn glir sut y bydd hyn yn newid petai yna etholiad. Fel lleiafswm, dylai canfaswyr sy'n gweithio yn yr ardal y mae etholiad yn effeithio arni gael eu cyfarwyddo i ddychwelyd unrhyw ffurflenni cofrestru pleidleiswyr a gwblhawyd y maent wedi eu casglu cyn gynted â phosibl erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru.

2.66 Os nad ydynt eisoes wedi cael eu cyfarwyddo, dylid rhoi cyfarwyddyd i ganfaswyr sy'n cyflenwi Ffurflenni Ymholiad y Cartref (na ellir eu defnyddio i



gofrestru) i eiddo nad ydynt wedi ymateb yn yr ardal(oedd) etholiadol yr effeithir arnynt gan yr etholiad, i annog unrhyw breswylwyr yn y cyfeiriad sydd heb gofrestru i wneud hynny ar-lein (neu dros y ffôn os ydych yn cynnig y gwasanaeth hwn), a dylent hefyd dynnu sylw at y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru. Gallent hefyd fod â ffurflenni cofrestru gwag i ddarpar etholwyr eu cwblhau lle nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwyd.

2.67 Tybir bod ffurflenni gwneud cais i gofrestru (nid Ffurflenni Ymholiad y Cartref) sy'n cael eu casglu gan ganfaswyr erbyn y dyddiad cau cofrestru, hyd yn oed os nad ydynt wedi eu trosglwyddo i swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol tan ar ôl y dyddiad cau cofrestru, wedi cwrdd â'r dyddiad cau cofrestru. I wneud yn siŵr ei bod yn glir pa ffurflenni a dderbyniwyd gan ganfaswyr erbyn y dyddiad cau cofrestru, dylai canfaswyr gael cyfarwyddyd i atal eu hymweliadau personol heb fod yn hwyrach na diwedd y deuddegfed diwrnod cyn yr etholiad. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond ffurflenni a dderbynnir cyn y dyddiad cau cofrestru fydd yn cael eu prosesu. Os mai dim ond rhan o'r ardal gofrestru sy'n cael ei heffeithio gan yr etholiad, dim ond yn yr ardal(oedd) yr effeithir arnynt sydd angen oedi'r canfas, ac nid ar draws y cyfan o'r ardal gofrestru.

2.68 Gall y defnydd o gyfryngau lleol ac ymarferion ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn werthfawr o ran amlinellu i breswylwyr sut y gallant gofrestru i bleidleisio mewn pryd i gael eu cynnwys ar y gofrestr a ddefnyddir yn yr etholiad. Os bydd etholiad ar gyfer y DU gyfan yn ystod y canfas, bydd yn bwysig cysylltu eich negeseuon lleol ag unrhyw weithgarawch cyfathrebu gan y Comisiwn er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

2.69 Pan fydd yr etholiad yn croesi ffiniau cynghorau lleol, bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyngor/cynghorau lleol eraill er mwyn sicrhau dull gweithredu a negeseuon cyson ledled yr ardal etholiadol.

## Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau a gynhelir yn ystod y canfas

2.70 Mae'n rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad o newid etholiad ar gyfer unrhyw ardal lle mae hysbysiad o etholiad wedi cael ei gyhoeddi, a dau hysbysiad newid interim.<sup>16</sup>



Mae [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar gyhoeddi hysbysiadau o newid etholiad.

2.71 Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiad sy'n digwydd yn ystod canfas 2019 fydd y gofrestr a gyhoeddir erbyn 1 Rhagfyr 2017, fel y'i diwygiwyd gan hysbysiadau misol o newid ac unrhyw hysbysiadau o newid etholiad.

2.72 Pan fydd angen i ymgeisydd gael llofnodwyr, rhaid iddynt ymddangos ar y gofrestr mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad ar gyfer yr etholiad penodol a gynhelir. Yn ymarferol, fel arfer hwn fydd yr hysbysiad o newid olaf a gyhoeddir cyn cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad; a rhaid i unrhyw lofnodwyr fod wedi'u cofrestru eisoes neu gael eu hychwanegu at y gofrestr erbyn yr hysbysiad o newid hwnnw.



Mae Pennod 11 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar y dyddiadau cau ar gyfer gwneud ceisiadau i'w cynnwys ar hysbysiad o newid, gan gynnwys lle cynhelir etholiad.

# 3 Beth i'w anfon a phryd

## Ffurflenni i'w hanfon yn ystod y canfas

3.1 Mae'n rhaid i chi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i bob eiddo yn eich ardal gofrestru o fewn y cyfnod **1 Gorffennaf 2019** i **30 Tachwedd 2019**. Rhaid i hon fod yn Ffurflen Ymholiad y Cartref bapur yn y fformat a ragnodir ac ni ellir ei hanfon dros e-bost na thrwy ddefnyddio unrhyw ddull electronig arall.

3.2 Mae eithriad i'r gofyniad i anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i bob eiddo ond **dim ond** lle bod cais cofrestru wedi ei benderfynu'n llwyddiannus a bod yr ymgeisydd wedi nodi yn eu cais cofrestru mai nhw yw'r unig berson sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban) sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw. Yn yr achos penodol hwn:

- Lle bo'r cais cofrestru wedi ei benderfynu'n llwyddiannus **yn ystod** y canfas blynyddol (h.y. 1 Gorffennaf hyd nes cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig), nid oes gofyn i chi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i'r eiddo yn ystod y canfas hwnnw.<sup>17</sup>
- Lle bo'r cais cofrestru wedi ei benderfynu'n llwyddiannus **tu allan** i'r canfas blynyddol (h.y. o gyhoeddi'r gofrestr ddiwygedig nes 30 Mehefin), nid oes gofyn i chi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref i'r eiddo yn ystod y canfas **nesaf**.<sup>18</sup>

3.3 Fodd bynnag, efallai y byddwch yn dewis rhoi Ffurflen Ymholiad y Cartref yn yr amgylchiadau hyn, a dylech wneud os oes gennych reswm i gredu o gofnodion eraill, bod amgylchiadau wedi newid o bosib. Wrth wneud eich penderfyniad, dylech ystyried beth mae cofnodion eraill yn dweud wrthyhch ynghylch cyfeiriad penodol, ond hefyd ystyried eich gwybodaeth ehangach o'r ardal. Er enghraifft, os yw'r cyfeiriad mewn ardal gyda llawer o symud o gwmpas, efallai y byddwch yn penderfynu bod gwerth mewn anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref ar ryw bwynt, neu ystyried rhyw weithgarwch arall (megis llythyr hysbysu'r cartref) fyddai'n eich cynorthwyo i nodi unrhyw newid o ran amgylchiadau yn yr eiddo hwnnw.



Ceir canllawiau ar anfon llythyrau hysbysu cartrefi yn [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn'](#).

3.4 Ceir rhagor o wybodaeth am y Ffurflen Ymholiad y Cartref [isod](#). Mae'n ofyniad cyfreithiol i chi gymryd camau penodol i olrhain unrhyw Ffurflen Ymholiad y Cartref na cheir ymateb iddi, gan gynnwys cyhoeddi dau nodyn atgoffa a gwneud ymweliad personol.

3.5 Mae eithriad i'r gofyniad i gymryd camau penodol i'r rhai nad ydynt yn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref. Os yw Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi ei roi fel rhan o'r canfas, a'ch bod wedi penderfynnu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer unigolyn sy'n preswyllo yn yr eiddo hwnnw a bod yr ymgeisydd wedi nodi yn eu cofrestriad mai nhw yw'r unig berson sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban) yn y cyfeiriad, nid oes gofyn i chi ddilyn fyny gyda'r Ffurflen Ymholiad y Cartref ar gyfer yr eiddo hwnnw.<sup>19</sup> Efallai y byddwch yn dewis gwneud, a dylech wneud os oes gennych reswm i gredu o gofnodion eraill, bod amgylchiadau wedi newid o bosib.

3.6 **Ni ellir defnyddio Ffurflen Ymholiad y Cartref i gofrestru pobl.** Mae'n ddull o gasglu gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n preswyllo ac sy'n gymwys i gofrestru mewn cyfeiriad penodol. Bydd y wybodaeth a ddarperir ar Ffurflen Ymholiad y Cartref yn gweithredu fel ysgogiad ar gyfer gweithredu pellach yn seiliedig ar yr ymateb a gafwyd (gweler **Pennod 4**).

3.7 Bydd angen i unrhyw etholwyr newydd posibl a nodwyd (er enghraifft, lle mae enw wedi cael ei ychwanegu at Ffurflen Ymholiad y Cartref) gael Gwahoddiad i Gofrestru a ffurflen gais i gofrestru, a bydd angen i chi gymryd y camau penodol - cyhoeddi dau nodyn atgoffa ac ymweliad personol - i olrhain unrhyw Wahoddiad i Gofrestru na chafwyd ymateb iddo. Ni fydd y prosesau hyn i gyd yn llinol a bydd angen eu gwneud ar yr un pryd.



Yn yr Alban, er bod y ddyletswydd yn Adran 9A i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod eich cofrestrau yn gywir ac yn gyflawn yn dal yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ fel rhan o'r canfas blynyddol wedi'i ehangu i bobl ifanc 14 a 15 oed. Nid oes angen cynnal ymweliad personol â phobl ifanc 14 neu 15 oed nad ydynt wedi ymateb i Wahoddiad i Gofrestru unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Os na fyddwch yn ymweld â'r cartref, dylech ystyried pa ddulliau eraill y gallwch eu defnyddio i annog ymateb gan y sawl yn y grŵp oedran hwn. Er enghraifft, gallech gysylltu â phobl ifanc dan 16 oed drwy e-bost os oes gennych eu cyfeiriad e-bost. Hefyd, fel rhan o unrhyw weithgarwch dilynol ar ôl canfas, efallai y cewch gyfle i atgoffa unrhyw oedolion sy'n byw mewn cyfeiriad bod gan bobl ifanc 15 oed a rhai pobl ifanc 14 oed hawl i gofrestru gan ofyn iddynt annog unrhyw bobl ifanc 14/15 oed yn y cyfeiriad i wneud cais i gofrestru ar-lein.

Dylech hefyd weithio gyda phartneriaid sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc neu sydd â dylanwad arnynt ac adlewyrchu hyn yn eich cynlluniau. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 2 o [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflawni gweitharwch cofrestru etholiadol](#). Rydym wedi darparu canllawiau penodol ar ymgysylltu â phobl ifanc a chyrraeddwr yn ein [taflen tactegau enghreifftiol](#) ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed.



### Rhannu arfer da

Po gynharaf yn y broses Ffurflen Ymholiad y Cartref neu Gwahoddiad i Gofrestru y bydd cartref neu unigolyn yn ymateb, y lleiaf o adnoddau y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gorfod eu defnyddio. Ceir enghreifftiau o sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio eu deunydd swyddfa a'u deunyddiau i annog ymateb cyn gynted â phosibl yn yr adnodd '[Annog ymatebion](#)'.



Ceir canllawiau ar roi Gwahoddiadau i Gofrestru a'r prosesau dilynol y mae angen i chi eu cyflawni os nad ydych yn cael ymateb i'r Gwahoddiad i Gofrestru, yn ogystal â chanllawiau ar brosesu ceisiadau a ddychwelwyd yn [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#).

3.8 Mae'n rhaid i chi roi'r gwahoddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a, beth bynnag, o fewn 28 diwrnod calendr i'r dyddiad y byddwch yn dod i'r casgliad y gall y person hwnnw fod â hawl i gael ei gofrestru.<sup>20</sup> Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, megis lle mae dyddiad cau cofrestru etholiadol yn agosáu neu tuag at ddiwedd y canfas, gall fod yn briodol gosod terfyn amser byrrach a mater i chi yw penderfynu ar derfyn amser addas gan dalu sylw i'r ystyriaethau perthnasol.

3.9 Lle bo gennych gyfeiriad e-bost ar gyfer etholwr posibl, gallwch ei ddefnyddio i'w hannog i wneud cais i gofrestru, un ai cyn neu ar ôl i chi anfon y gwahoddiad i gofrestru'n ffurfiol. Gellir rhoi gwahoddiad i gofrestru drwy dulliau electronig, gan gynnwys drwy e-bost.<sup>21</sup>

3.10 Er mwyn osgoi rhoi gwahoddiad i gofrestru i unigolyn sydd eisoes wedi gwneud cais i gofrestru, dylech fod a phroses yn ei lle i nodi a yw cais o'r fath wedi'i wneud cyn i chi roi gwahoddiad. Er enghraifft, efallai y byddwch yn derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref yn ôl gydag etholwr cymwys posibl wedi ei ychwanegu. Dylech gadw mewn cof y gall yr etholwr cymwys posibl fod wedi gwneud cais i gofrestru ar-lein neu dros y ffôn (os ydych wedi penderfynu cynnig y gwasanaeth hwnnw). Felly dylech sicrhau, fel rhan o'ch arferion gwaith, fod proses yn ei lle i wirio ceisiadau a dderbynnir trwy unrhyw sianel cyn i chi roi gwahoddiad i gofrestru.

3.11 Efallai y bydd eich system EMS yn gallu awtomeiddio'r broses hon. Fodd bynnag, dylech gofio efallai na fydd yr enw ar gais i gofrestru yn cyfateb yn union i enw'r person yr ydych yn ystyried rhoi gwahoddiad i gofrestru iddo (er enghraifft, efallai fod eu henw wedi cael eu sillafu'n wahanol gan y person sydd wedi ychwanegu eu henw at y Ffurflen Ymholiad y Cartref). Felly, efallai bod angen gwirio ymhellach â llaw y ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y Gwahoddiadau i Gofrestru.

## Y Ffurflen Ymholiad y Cartref

3.12 Rhaid cynnal y canfas gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymholiad y Cartref a gymeradwywyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ac a wneir ar gael gan y Comisiwn Etholiadol.

3.13 Rhaid i'r ffurflen gael ei hargraffu ar bapur A3, a'i phlygu i wneud llyfryn maint A4. Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi beidio â newid y ffurflen mewn unrhyw ffordd heblaw i ychwanegu gwybodaeth leol benodol. **Ni ddylid anfon y Ffurflen Ymholiad y Cartref dros e-bost na thrwy ddefnyddio unrhyw ddull electronig arall ac nid oes unrhyw ddisgresiwn i ddefnyddio ffurflen ag effaith gyffelyb.**<sup>22</sup>



Mae'r Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru gwag ac wedi rhagargraffu y mae'n rhaid i chi eu defnyddio ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae ein canllawiau ffurflenni a llythyrau sy'n rhan o'r Ffurflen Ymholiad y Cartref (a ffurflenni cofrestru etholiadol eraill) sydd rhaid eu defnyddio yn union fel y'u darperir, a pha rannau y gellir eu haddasu. Mae'r canllawiau [ffurflenni](#) a [llythyrau](#) ar gyfer Cymru a Lloegr a'r canllawiau ffurflenni a llythyrau ar gyfer yr Alban ar gael i'w lawrlwytho ar ein [gwefan](#).

## Ffurflenni Ymholiad y Cartref rhagargraffedig

3.14 Os yw'n ymarferol, rhaid i chi ragargraffu gwybodaeth benodol ar Ffurflen Ymholiad y Cartref ynglŷn â phob person sydd wedi eu cofrestru'n bresennol yn y cyfeiriad hwnnw,<sup>ii</sup> sef:

- unrhyw ran o'r wybodaeth am y person sy'n ofynnol ar y ffurflen yr ydych eisoed yn ei dal (enw llawn a chenedligrwydd)<sup>23</sup>
- arwydd o ran os yw pob person sydd ar y ffurflen yn 76 oed neu'n hŷn (yng Nghymru a Lloegr yn unig).<sup>24</sup> Gweler paragraff **4.33** i gael gwybodaeth ynghylch sut gellir cymryd camau o ran newid yr arwydd '76 oed neu'n hŷn' ar Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelir.
- arwydd a yw bob person wedi cael ei hepgor o'r gofrestr a gafodd ei golygu<sup>25</sup> a gwybodaeth am sut y gall newid ei ffafriaeth<sup>26</sup> (mae 'hepgor' yn cynnwys pan fo person wedi eithrio allan yn flaenorol o'r gofrestr a gafodd ei golygu neu wedi gofyn ar unrhyw adeg am i'w gwybodaeth bersonol gael ei

<sup>ii</sup> Ni ddylech ragargraffu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r etholwyr canlynol: troseddwr yn y carchar; cleifion mewn ysbytai iechyd meddwl nad ydynt yn droseddwr a gaiff eu cadw neu sydd ar remand; person ar remand yn aros treial neu ddedfryd; etholwyr cofrestredig yn dilyn datganiadau o gysylltiad lleol, datganiadau lluoedd arfog neu ddatganiadau etholwyr tramor; neu etholwyr dienw (Rheoliad 32ZA(5)(a) o Reoliadau 2001, Rheoliad 32ZA(5) o RPR (yr Alban) 2001).

thynnu o'r gofrestr a gafodd ei golygu hyd nes y rhoddir rhybudd pellach dan Erthygl 21 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

3.15 Dim ond gwybodaeth sy'n ymwneud ag etholwyr presennol y dylech ei hargraffu, ac ni ddylid cynnwys manylion am unrhyw un sydd heb gofrestru ar hyn o bryd yn y cyfeiriad hwnnw, hyd yn oed os ydych yn meddwl y gallent fod yn preswyluo yno ac yn gymwys i gofrestru.

3.16 Mae'n rhaid i chi ychwanegu gwybodaeth am sut y gall preswylwyr ymateb ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref sydd wedi'i chyn-boblogi.<sup>27</sup> Mae'r ffurflen yn cynnwys maes y gellir ei olygu er mwyn i chi allu ychwanegu'r wybodaeth hon.

3.17 Er nad yw'n ofynnol i wneud hynny yn ôl y gyfraith, dylech hefyd gynnwys arwydd ynghylch a oes gan bob person drefniant presennol ar gyfer pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

3.18 Rhaid i dudalen gefn y Ffurflen Ymholiad y Cartref a ragargraffwyd gynnwys y geiriad statudol ynghylch y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored, yn ogystal â datganiad sy'n egluro y caiff y wybodaeth a roddwyd mewn ymateb i'r ffurflen ei defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

3.19 Dylech hefyd ychwanegu gwybodaeth am sut i gysylltu â'r swyddfa cofrestru etholiadol. Yn ogystal, gallwch ychwanegu unrhyw un neu'r cyfan o'r canlynol i gefnogi prosesu'r ffurflenni:

- cod bar
- rhif cyfeirnod
- cod diogelwch unigryw (er enghraifft, i gael ei ddefnyddio gan rywun i ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref dros y ffôn neu ar-lein)

## Ffurflenni Ymholiad y Cartref gwag

3.20 Lle nad yw'n ymarferol anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref a argraffwyd ymlaen llaw, rhaid i chi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref wag. Er enghraifft, os nad oes gan yr eiddo unrhyw etholwr cofrestredig, dylid anfon Ffurflen Ymholiad wag.

3.21 Gallwch hefyd ychwanegu unrhyw un neu'r cyfan o'r canlynol i gefnogi prosesu'r ffurflenni:

- cod bar
- rhif cyfeirnod
- cod diogelwch unigryw (er enghraifft, i gael ei ddefnyddio gan rywun i ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref dros y ffôn neu ar-lein)


3.22 Rhaid i chi gynnwys gyda'r ffurflen wybodaeth ar sut i ymateb i'r Ffurflen Ymholiad y Cartref. Mae'r ffurflen yn cynnwys ardal y gallwch addasu i ychwnaegu'r wybodaeth hon.<sup>28</sup>

3.23 Gan nad oes unrhyw gyfeiriadau ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref wag at y gofrestr agored - oherwydd nad oes unrhyw ddewis presennol i gael ei ragargraffu ar y ffurflen – does dim rhaid i chi gynnwys y geiriad ynghylch y gofrestr agored ar gefn Ffurflen Ymholiad y Cartref wag. Yn hytrach, gallwch ddewis ychwanegu unrhyw wybodaeth arall allai fod o ddefnydd i rhywun sy'n derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref wag, er enghraifft, cwestiynau cyffredin.

## Y llythyr esboniadol

3.24 Rhaid anfon llythyr esboniadol gyda'r Ffurflen Ymholiad y Cartref. Er nad yw'r llythyr hwn wedi ei ragnodi, rydym wedi cynhyrchu templed i chi ei ddefnyddio. Bu'r llythyr templed hwn yn destun profion gan ddefnyddwyr, gyda'r Ffurflenni Ymholiad y Cartref wag ac wedi'i chyn-boblogi.

3.25 Cynhaliwyd treial gennym yn 2017 i edrych ar ffyrdd o gynyddu cyfraddau ymateb i Ffurflenni Ymholiad y Cartref. Arweiniodd hyn at ddylunio rhai llythyrau ac amlenni templed ychwanegol ar gyfer Ffurflenni Ymholiad y Cartref. Mae rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r treial hwn ar gael yn adroddiad y treial.



Gallwch weld y gyfres o ffurflenni cofrestru etholwyr a llythyrau templed, gan gynnwys llythyrau ac amlenni ychwanegol Ffurflenni Ymholiad y Cartref sy'n adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o brosiect 2017 i gynyddu cyfraddau ymateb, i'w defnyddio yng nghanfas 2019 ar [ein gwefan](#).

## Amlen ateb

3.26 Rhaid i chi hefyd gynnwys amlen ragdaledig sydd eisoes wedi ei chyfeirio gydag unrhyw Ffurflen Ymholiad y Cartref a anfonwch, y gellir ei defnyddio i ddychwelyd y ffurflen.<sup>29</sup>



# 4 Ymatebion i Ffurflenni Ymholiad y Cartref

## Dulliau ymateb

4.1 Yn ôl y gyfraith rhaid i berson sydd wedi derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ond nid oes unrhyw ofyniad am i'r ffurflen ei hun gael ei dychwelyd. Mae hyn yn cynnwys lle cafwyd newidiadau i unrhyw wybodaeth a ragargraffwyd ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref, neu lle darperir gwybodaeth newydd.

4.2 Bydd y sianelau a ddarperir i bobl ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref yn cael eu penderfynu gan bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a gallai hyn gynnwys dros y ffôn neu ar-lein. Er budd a chyfleustra'r holl etholwyr, dylech gynnig dulliau ymateb amgen fel y ffôn neu ar-lein lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hyn hefyd yn eich helpu i gyflawni eich dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, oherwydd gall pobl a allai fod ag anawsterau cwblhau ffurflen bapur yn cael cyfle i ddarparu'r wybodaeth mewn ffyrdd heblaw ffurf ysgrifenedig.



Mae [Rhan 2: 'Y Fframwaith Cofrestru'](#) yn cynnwys canllawiau ar yr ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â rhoi prosesau yn eu lle ar gyfer derbyn gwybodaeth ar ffurfiau heblaw papur.

## Datganiad o wirionedd

4.3 Mae fersiynau rhagargraffedig a gwag y Ffurflen Ymholiad y Cartref yn darparu lle ar gyfer llofnodi i ddangos bod datganiad o wirionedd wedi cael ei wneud.<sup>30</sup> **Rhaid** gwneud datganiad o wirionedd, ond nid oes rhaid iddo fod ar ffurf llofnod. Er enghraifft, gellid ei roi ar lafar.

4.4 Os nad yw ffurflen wedi cael ei llofnodi, gellir ei derbyn yn un fath os ydych yn fodlon bod y datganiad o wirionedd wedi ei wneud mewn rhyw ffordd arall.

4.5 Os yw'r datganiad ar goll, dylech dychwelyd y ffurflen i'w llofnodi, neu gysylltu â'r cartref, er enghraifft, dros y ffôn, a gofyn i'r person a gwblhaodd y ffurflen wneud y datganiad. Dylech sicrhau bod y person yn cael cyfle i adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt, a bodloni eu hunain ei bod yn wir ac yn gywir. Er enghraifft, gallech ddarllen y wybodaeth yn ôl iddynt a gofyn iddynt

gadarnhau bod y wybodaeth yn wir, gan wneud yn siŵr eich bod yn cadw nodyn ysgrifenedig o'r drafodaeth.

## Prosesu ymatebion Ffurflen Ymholiad y Cartref

4.6 Dylai eich cynlluniau cofrestru ymdrin â sut yr ymdrinnir ag ymatebion Ffurflen Ymholiad y Cartref. Bydd ymatebion i Ffurflenni Ymholiad y Cartref yn disgyn i'r categorïau bras canlynol:

- dim newidiadau
- enwau etholwyr presennol a gofrestrwyd sydd wedi eu dileu
- ychwanegiadau
- newidiadau i fanylion etholwyr presennol
- cais ar gyfer newidiadau i ddewisiadau pleidlais absennol a chofrestr agored

4.7 Mewn rhai achosion, efallai y byddwch hefyd yn derbyn hysbysiad nad oes unrhyw breswylwyr sy'n gymwys i gael eu cofrestru yn yr eiddo.

4.8 Lle na cheir ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref, bydd angen i chi gynnal y prosesau angenrheidiol dilynol fel y nodir ym mharagraffau **4.54** i **4.63**.

4.9 Mae eithriad i'r gofyniad i gymryd camau penodol i'r rhai nad ydynt yn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref. Os yw Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi ei rhoi fel rhan o'r canfas, a'ch bod wedi penderfynu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer unigolyn sy'n preswyllo yn yr eiddo hwnnw a bod yr ymgeisydd wedi nodi yn eu cofrestrriad mai nhw yw'r unig berson sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban) yn y cyfeiriad, nid oes gofyn i chi ddilyn fyny gyda'r Ffurflen Ymholiad y Cartref ar gyfer yr eiddo hwnnw. Efallai y byddwch yn dewis gwneud, a dylech wneud os oes gennych reswm i gredu o gofnodion eraill, bod amgylchiadau wedi newid o bosib.



Rydym wedi cynhyrchu [taflen grynoded](#) sy'n darparu dyddiadau allweddol ar gyfer y canfas ac sy'n crynhoi'r prosesau y bydd angen i chi eu dilyn gan ddibynnu ar p'un a yw'r Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi ei dychwelyd.

### Dim newidiadau

4.10 Os yw'r manylion ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig yn cael eu cadarnhau drwy unrhyw un o'ch dulliau ymateb a ganiateir, nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau pellach.

## Enwau etholwyr presennol a gofrestrwyd wedi eu dileu

4.11 Efallai y byddwch yn cael gwybod mewn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig bod etholwyr presennol wedi symud allan. **Rhaid peidio** dileu'n awtomatig oddi ar y gofrestr enwau sydd wedi'u dileu o Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig. Gallwch ddileu'r cofnod oddi ar y gofrestr pan fyddwch yn fodlon nad oes gan y person bellach hawl i gael ei gofrestru a bod gennych ddwy ffynhonnell wahanol o wybodaeth, a bod y ddwy'n cadarnhau nad yw'r etholwr yn preswyllo yn y cyfeiriad mwyach.<sup>31</sup>

4.12 Gallwch hefyd ddileu cofnod oddi ar y gofrestr pan fyddwch yn derbyn:

- tystysgrif marwolaeth mewn perthynas â'r etholwr
- hysbysiad gan y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau bod yr etholwr wedi marw
- gwybodaeth bod yr etholwr wedi marw:
  - o ganlyniad i'r canfas (er enghraifft, Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi'i dychwelyd lle nodwyd bod etholwr wedi marw)
  - gan berthynas agos (priod, partner sifil, rhiant, mam-gu neu dad-cu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr neu wyres yr etholwr). Gellir ei darparu yn bersonol, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig ond rhaid iddi gynnwys:
    - enw a chyfeiriad llawn yr etholwr sydd wedi marw;
    - enw a chyfeiriad llawn y person sy'n darparu'r wybodaeth;
    - ei berthynas â'r sawl sydd wedi marw;
    - datganiad bod y person sy'n darparu'r wybodaeth yn ymwybodol o'r gosb am ddarparu gwybodaeth ffug<sup>32</sup>Lle caiff gwybodaeth ei darparu yn bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth yn ysgrifenedig neu ar ffurf data.
  - gan reolwr cartref gofal cofrestredig<sup>iii</sup>. Gellir ei darparu'n bersonol, dros y ffôn neu yn ysgrifenedig ond rhaid iddi gynnwys:
    - enw a chyfeiriad llawn yr etholwr sydd wedi marw;
    - enw a chyfeiriad llawn y person sy'n darparu'r wybodaeth;
    - datganiad bod y person sy'n darparu'r wybodaeth yn ymwybodol o'r gosb am ddarparu gwybodaeth ffug<sup>33</sup>Lle caiff gwybodaeth ei darparu yn bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth yn ysgrifenedig neu ar ffurf data.
  - o gofnodion eich cyngor eich hun (ac, os ydych yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer cyngor dosbarth mewn awdurdod dwy haen, cofnodion y cyngor sir perthnasol)

<sup>iii</sup> dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, ystyr "cartref gofal" yw gwasanaeth cartref gofal sydd wedi'i gofrestru dan Ran 5 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (yr Alban) 2010(a) ac mae gan "gwasanaeth cartref gofal" yr un ystyr ag ym mharagraff 2 o atodlen 12 o'r Ddeddf honno.

- gan berson neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'ch cyngor (yn cynnwys, os ydych yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer cyngor dosbarth mewn awdurdod dwy haen, y cyngor sir perthnasol).

4.13 Gallwch hefyd ddileu cofnod oddi ar y gofrestr pan fyddwch yn cael hysbysiad drwy Wasanaeth Digidol Cofrestriad Etholiadol Unigol neu Swyddog Cofrestru Etholiadol arall bod person sydd wedi'i gofrestru yn eich ardal wedi gwneud cais i gofrestru rywle arall ac wedi nodi ei fod wedi rhoi'r gorau i fyw yn y cyfeiriad yn eich ardal, a bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi caniatáu'r cais.

4.14 Os **nad** yw'r wybodaeth a gewch o ganlyniad i'r canfas yn nodi bod etholwr wedi marw – er enghraifft, pan fydd enw wedi'i groesi allan oddi ar Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd ond na nodwyd bod yr etholwr wedi marw – **ni ddylech** ddileu'r cofnod hwnnw oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd yn cynrychioli **un** ffynhonnell o wybodaeth, a rhaid i chi gael **ail** ffynhonnell, os nad ydych eisoes wedi cael un, sy'n cadarnhau nad yw'r etholwr bellach yn preswyllo yn y cyfeiriad cyn y gallwch ddileu'r etholwr.

4.15 Gallai gwirio cofnodion lleol, hyd yn oed cyn i chi dderbyn ymateb i Ffurflenni Ymholiad y Cartref (p'un ai cyn i'r canfas ddechrau neu ar ôl i'r ffurflenni cychwynnol gael eu hanfon), roi darn gwahanol o wybodaeth i chi a allai eich galluogi i ddileu'r cofnod ar ôl dychwelyd y Ffurflen Ymholiad y Cartref gydag enw wedi ei ddileu lle na nodwyd bod yr etholwr wedi marw.

4.16 Fel arall, dylai'r wybodaeth ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd weithredu fel ysgogiad i wirio cofnodion eraill sydd ar gael i chi er mwyn cael ail ffynhonnell. Os na fydd y gwiriadau cofnodion yn datgelu unrhyw wybodaeth bellach, dylech gynnal adolygiad o hawl y person hwnnw i aros yn gofrestredig.

4.17 Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd angen i chi ddangos bod yr holl wybodaeth a gafwyd – boed hynny drwy archwilio cofnodion cyngor, neu a ddatgelwyd gan eich cyngor – yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y cânt eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw. Felly, dylech gadw manylion am y canlynol:

- y cofnodion i'w harchwilio
- amserlen o pryd y dylid cynnal yr archwiliadau hyn
- y sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth honno. Er enghraifft, mae Adran 9A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol archwilio cofnodion y mae ganddo ganiatâd i'w harchwilio fel rhan o'i ddyletswydd i gynnal y gofrestr etholiadol. Felly, mae Adran 9A yn rhoi'r sail statudol i chi brosesu data personol a geir drwy gofnodion y cyngor

- mesurau i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith i ddiogelu'r data (er enghraifft, amgryptio data/diogelu data â chyfrinair pryd bynnag y cânt eu trosglwyddo, a defnyddio dulliau storio diogel)
- pa gamau ydych chi wedi'u cymryd ar sail y wybodaeth a gawsoch
- cadw a gwaredu'r data yn ddiogel (yn unol â'ch cynllun cadw dogfennau)

4.18 Bydd cynnal cofnodion o'r fath yn eich helpu i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data a'ch dyletswyddau o dan Reoliad 35 a 35A o RPR 2001.



Ceir canllawiau manwl ar ddileadau ac ar weinyddu adolygiadau cofrestru ym mhenodau 9 a 10 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#). Rydym hefyd wedi darparu crynodebau o'r [broses dileadau ac adolygu](#) ar ein gwefan.

Hefyd, mae ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn dangos sut y gallwch roi mesurau ar waith i fodloni'r gofyniad i ddangos cydymffurfiaeth a sicrhau bod diogelu data yn rhan annatod o bopeth a wnewch.

## Ychwanegiadau

4.19 Os dychwelir Ffurflen Ymholiad y Cartref gydag enwau etholwyr cymwys posibl, rhaid i chi eu gwahodd i gofrestru o fewn 28 diwrnod calendr o'i derbyn oni bai eu bod wedi gwneud cais i gofrestru yn y cyfamser.<sup>34</sup>

4.20 Nid oes angen i chi wybod enw llawn neu union enw'r etholwr posibl er mwyn rhoi gwahoddiad i gofrestru iddynt. Fodd bynnag, mae angen i chi gael digon o wybodaeth am eu henw i allu eu hadnabod fel unigolyn.



Am ganllawiau manwl ar roi Gwahoddiadau i Gofrestru ac olrhain y rhai sydd heb ymateb, ewch i Bennod 3 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn](#).

### Annog gwneud cais i gofrestru

4.21 Lle mae gennych gyfeiriad e-bost a rhif(au) ffôn yr unigolion sy'n ymddangos fel petaent yn gymwys i gofrestru, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i unrhyw ddiben priodol mewn cysylltiad â hawl y person hwnnw i gael ei gofrestru, neu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau o dan Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Er enghraifft, os dychwelir Ffurflen Ymholiad y Cartref wag gydag etholwyr cymwys posibl ac y darparwyd cyfeiriadau e-bost ar gyfer yr unigolion hyn, efallai yr hoffech eu hannog i wneud cais i gofrestru drwy e-bost, naill ai cyn neu ar ôl i chi eu gwahodd yn ffurfiol i gofrestru. Nid yw hyn yn osgoi'r angen i anfon gwahoddiad i gofrestru o fewn 28 diwrnod o ddod yn

ymwybodol o'r etholwr posibl. Gellir hefyd anfon gwahoddiad i gofrestru drwy ddulliau electronig, gan gynnwys e-bost.



Ceir canllawiau ynghylch rhoi anogaeth anffurfiol i wneud ceisiadau cyn rhoi Gwahoddiad i Gofrestru ym Mhennod 2 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn](#).

## Storio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn



Ceir ystyriaethau cyffredinol ynglŷn â thrin data personol a diogelwch, storio a chadw ffurflenni yn [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) ac yn ein [hadnodd](#) ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018.

4.22 Os yw ymateb Ffurflen Ymholiad y Cartref yn cynnwys cyfeiriadau e-bost unigolion a/neu rifau ffôn, dylech sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi fel y bo'n briodol yn erbyn y cofnodion ar gyfer yr unigolyn dan sylw, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data, ac mai dim ond i'r diben y cawsant eu casglu y defnyddir y wybodaeth.

4.23 Hefyd, os oes gennych gofnodion presennol o gyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn a gasglwyd drwy Ffurflen Ymholiad y Cartref flaenorol neu gais i gofrestru, ar yr adeg y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth honno nesaf, dylech gymryd mesurau priodol i sicrhau bod gwrthrych y data yn ymwybodol o sut y byddwch yn parhau i brosesu'r data hyn er enghraifft drwy:

- egluro hawl gwrthrych y data i wrthwynebu i gamau prosesu pellach
- rhoi dolen i'ch hysbysiad preifatrwydd
- cynnwys yr opsiwn i 'ddatdanysgrifio' fel y trafodwyd ym mharagraff 3.16 o'n hadnodd ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE, sy'n golygu y gall gwrthrych y data wrthod gadael i'w wybodaeth gyswllt gael ei defnyddio at y diben hwn

## Newidiadau i fanylion etholwyr presennol

4.24 Os ydych chi wedi anfon Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig efallai y byddwch yn derbyn ymateb sy'n dangos bod newidiadau i fanylion etholwr presennol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau i:

- enw
- cenedligrwydd
- y dangosydd oedran 76 neu'n hŷn' (yng Nghymru a Lloegr)

## Newid enw

4.25 Os yw etholwr wedi newid eu henw ac yn dymuno diweddarau'r gofrestr etholiadol i adlewyrchu'r newid, mae'n rhaid iddynt gwblhau ffurflen newid enw a darparu tystiolaeth ategol o'r newid.<sup>35</sup>



Mae [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar etholwyr sy'n dymuno gwneud cais i newid eu henw.

## Newid cenedligrwydd

4.26 Os yw etholwr yn dangos eu bod wedi newid eu cenedligrwydd, dylech wirio a yw hyn yn effeithio ar eu hawl i bleidleisio. Pan fydd y newid yn effeithio ar eu hawl, byddai angen iddynt wneud cais newydd i gofrestru gan na all person gael ei gofrestru trwy Ffurflen Ymholiad y Cartref. Er enghraifft, os yw etholwr â chenedligrwydd 'Ffregig' yn diwygio eu cenedligrwydd i 'Brydeinig', dylech wahodd y person hwnnw i wneud cais cofrestru newydd. Mae hyn oherwydd bod eu cenedligrwydd Ffregig presennol yn golygu mai dim ond ar y gofrestr llywodraeth leol o etholwyr y maent wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, a byddai newid eu cenedligrwydd i 'Brydeinig' yn rhoi hawl iddynt hefyd gael eu cofrestru ar y gofrestr etholwyr seneddol.

4.27 Os nad ydych yn fodlon ynghylch cenedligrwydd unrhyw ymgeisydd neu etholwr, mae gennych y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd neu'r etholwr ddarparu tystiolaeth ddogfennol yn cadarnhau eu cenedligrwydd.<sup>36</sup> Yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff **4.26** pan fydd newid mewn cenedligrwydd yn effeithio'n gadarnhaol ar hawl etholwr i bleidleisio, dylech ofyn am dystiolaeth ddogfennol o'r newid cenedligrwydd.

4.28 O dan ddeddfwriaeth diogelu data, dosberthir data ar genedligrwydd yn gategori arbennig o ddata personol oherwydd gall ddatgelu tarddiad hiliol neu ethnig unigolyn.

4.29 Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn gwahardd prosesu categorïau arbennig o ddata personol oni fydd sail gyfreithiol ychwanegol dros wneud hynny, y tu hwnt i'r rhai at brif ddibenion prosesu data. Y sail gyfreithlon briodol ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol at ddibenion etholiadol fyddai ei fod yn angenrheidiol am resymau budd sylweddol y cyhoedd ac â sail yng nghyfraith y DU.

4.30 Hefyd, mae'r Bil Diogelu Data yn mynd â hyn ymhellach, gan nodi bod y gofynion arbennig ond yn gymwys os oes gan y rheolydd data 'Ddogfen Bolisi' ar waith. Felly, fel y'i cyflwynir, mae'r Bil Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn prosesu data ar genedligrwydd fod gennych ddogfen bolisi sydd, ymhlith pethau eraill, yn gorfod egluro'r canlynol:

- y gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r egwyddorion ar ddiogelu data
- y polisiau ar gyfer cadw a dileu.

4.31 Felly, bydd angen i'ch dogfen bolisi adlewyrchu eich gweithdrefnau prosesu lleol a'ch polisiau ar gyfer cadw a dileu data personol. Rhaid i'r ddogfen bolisi hon gael ei chadw am chwe mis ar ôl i'r cyfnod prosesu ddod i ben, a chael ei hadolygu a'i diweddarau ar adegau priodol, a bod ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gais. Bydd dogfen bolisi'r Comisiwn ei hun ar gael ym mis Ebrill er gwybodaeth i chi.



Ceir canllawiau manylach ynghylch eich pŵer i'w gwneud yn ofynnol darparu tystiolaeth o genedigrwydd yn [Rhan 2: 'Y Fframwaith Cofrestru'](#).

### **Newid i'r dangosydd 76 oed neu'n hŷn' (Cymru a Lloegr yn unig)**

4.32 Os yw etholwr yn nodi mewn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref eu bod (neu nad ydynt) yn 76 oed neu'n hŷn, dylech adlewyrchu hyn fel y bo'n briodol gyda'r marciwr perthnasol ar y gofrestr.

## **Cais am newidiadau i ddewisiadau pleidlais absennol a chofrestr agored**

### **Dewisiadau pleidlais absennol**

4.33 Nid yw'r Ffurflen Ymholiad y Cartref wag yn cyfeirio at bleidleisio absennol.

4.34 Er nad yw'n ofynnol gwneud hynny yn ôl y gyfraith, dylech gynnwys arwydd ynghylch p'un a oes gan bob person drefniant presennol i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig. Mae'r Ffurflen Ymholiad y Cartref ragargraffedig hefyd yn egluro y gall etholwr lawrlwytho ffurflen gais pleidlais absennol o [www.dybleidlaisdi.co.uk](http://www.dybleidlaisdi.co.uk).

4.35 OOs ydych yn cael gwybod trwy Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd drwy ba bynnag sianel ymateb fod etholwr yn dymuno gwneud cais am bleidlais absennol, dylech anfon y ffurflen gais berthnasol ato. Os nad yw'r etholwr wedi'i gofrestru eto, dylid anfon gwahoddiad i gofrestru gyda'r ffurflen, gan mai dim ond person sydd wedi (neu a fydd wedi) cael ei gofrestru a all gael pleidlais absennol. Er mwyn i rhywun fodloni'r maen prawf 'neu a fydd wedi', mae'n rhaid bod y cyfnod gwrthwynebu fod wedi mynd heibio a'ch bod wedi penderfynnu yn gadarnhaol ar eu cais, sy'n golygu y byddant yn cael eu hychwanegu at y gofrestr pan fyddwch yn cyhoeddi'r hysbysiad nesaf o newid neu'r gofrestr ddiwygedig, pa un bynnag sydd gyntaf.<sup>37</sup>

4.36 Gall etholwr presennol hefyd nodi eu bod yn dymuno diddymu trefniant pleidlais absennol presennol. Yr etholwr perthnasol ddylai wneud unrhyw gais o'r



fath. Er enghraifft, os yw un aelod o'r cartref yn cwblhau'r Ffurflen Ymholiad y Cartref ac yn nodi nad yw aelod arall o'r cartref yn dymuno pleidleisio drwy'r post bellach, dylech gysylltu â'r etholwr yn uniongyrchol i gadarnhau eu bod yn dymuno diddymu'r trefniant pleidlais absennol.



Mae [Rhan 5: 'Pleidleisio absennol'](#) yn cynnwys canllawiau ar geisiadau am bleidleisiau absennol, a gwneud newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol.

### Dewisiadau cofrestr agored

4.37 Os yw etholwr yn dymuno newid eu dewis eithrio allan o'r gofrestr agored gallant wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i'r perwyl hwn.

4.38 Ni ellir trin ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref a anfonwyd allan yn ystod canfas fel cais dilys i newid dewis cofrestr agored presennol a nodir hyn ar y ffurflen ragargraffedig ei hun, sydd yn cynnwys esboniad o sut i wneud cais o'r fath.

4.39 Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle mae ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref yn awgrymu bod yr etholwr yn dymuno newid eu dewis cofrestr agored. Er enghraifft, pan fo Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi cael ei dychwelyd atoch, efallai y bydd rhyw farc ar y ffurflen (megis newid yn y golofn 'cynnwys ar y gofrestr agored?') a allai ddangos bod etholwr yn dymuno eithrio allan o'r gofrestr agored neu i mewn iddi.

4.40 Os ydych yn derbyn ymateb o'r fath, dylech gysylltu â'r etholwr dan sylw, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i esbonio'r broses ar gyfer newid eu dewis eithrio allan a gofyn iddynt wneud cais i chi os ydynt am newid eu dewis. Gall y cais yn cael ei wneud naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys enw llawn yr etholwr, eu cyfeiriad ac arwydd o p'un a ydynt yn dymuno cael eu cynnwys ar y gofrestr agored neu eu hepgor ohoni.<sup>38</sup> Os ydych yn derbyn ymateb Ffurflen Ymholiad y Cartref sy'n ymddangos fel petai'n dangos bod pawb a restrir ar y ffurflen eisiau newid eu dewis, dylech gysylltu â phob etholwr yn unigol.

### Erthygl 21 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE

4.41 Rhoddodd Adran 11 o Ddeddf Diogelu Data 1998 yr hawl i etholwyr ei gwneud yn ofynnol i chi eu heithrio o'r gofrestr olygedig (a elwir hefyd yn gofrestr agored) yn barhaol (neu hyd nes y clywir yn wahanol). Bydd hyn yn parhau o dan Erthygl 21(2) o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE.

4.42 Mae'n bosibl i etholwr wneud cais o dan Erthygl 21 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol mewn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref, ar yr amod ei bod yn ddigon clir bod yr hysbysiad yn dod oddi wrth yr etholwr a'u bod yn dymuno eithrio allan o farchnata uniongyrchol, neu eithrio allan o'r gofrestr agored, yn barhaol neu am gyfnod amhenodol. Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â chais dilys a wneir i chi dan Erthygl 21.

4.43 Felly, pan fydd ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref yn dangos yn glir bod person yn dymuno eithrio allan o'r gofrestr agored tan y ceir rhybudd pellach (er enghraifft, os ydych yn derbyn ymateb i'r Ffurflen Ymholiad y Cartref lle nad oes ond un etholwr yn y cyfeiriad, a bod yr etholwr hwnnw yn dangos yn glir ar y ffurflen eu bod eisiau eu hepgor o'r gofrestr agored hyd nes clywir ymhellach) dylech drin yr ymateb Ffurflen Ymholiad y Cartref fel hysbysiad dan Erthygl 21 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch p'un a yw'r cais yn dod oddi wrth yr etholwr, neu ynghylch eu bwriadau, dylech gysylltu â'r etholwr i egluro beth yw'r broses ar gyfer newid eu dewis cofrestr agored a gofyn am gadarnhad cyn prosesu'r cais

4.44 Os ydych yn derbyn ymateb gan un person yn unig sy'n ymddangos fel petai'n gwneud cais ar ran pawb a restrir ar y ffurflen, dylech gysylltu â phob etholwr yn unigol.



Mae Pennod 11 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar y broses i etholwyr wneud newidiadau i'w dewis eithrio allan a sut i weithredu ar eu dewisiadau, gan gynnwys delio â cheisiadau Adran 11.

Mae Adran 3 'hawl i wrthwynebu' ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn amlygu pwysigrwydd cynnal cofnodion er mwyn nodi unrhyw gais a wneir o dan yr hawl i wrthwynebu i gamau prosesu a sicrhau y caiff data personol eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw.



Yn yr Alban, caiff person dan 16 oed ei eithrio o'r gofrestr ddiwygiedig. Ni ddylid cynnwys manylion unrhyw berson dan 16 oed yn **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddir, yn cynnwys y gofrestr ddiwygiedig.

4.45 Nid yw'r un o'r amgylchiadau uchod yn effeithio ar y gwaith o brosesu'r Ffurflen Ymholiad y Cartref, a ddylai fynd yn ei flaen fel arfer.

## Dileadau yn deillio o wybodaeth ar Ffurflen Ymholiad y Cartref

4.46 Os byddwch yn derbyn gwybodaeth o ganlyniad i'r canfas – er enghraifft ar Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd – bod etholwr wedi marw, ac rydych yn fodlon bod y wybodaeth yn gywir, gallwch ddileu'r cofnod hwnnw oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Nodir yr amgylchiadau eraill y gallwch ddileu etholwr yn seiliedig ar un ffynhonnell o dystiolaeth yn unig ym mharagraff **4.11**.

4.47 Os **nad** yw'r wybodaeth a gewch o ganlyniad i'r canfas yn nodi bod etholwr wedi marw, **ni ddylech** ddileu'r cofnod hwnnw oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Rhaid i chi gadw **ail** ffynhonnell o dystiolaeth cyn y gallwch ddileu'r etholwr hwnnw. Rhaid i'r wybodaeth y seilir penderfyniad arni ynghylch dileu cofnod heb adolygiad ddod o **wahanol** ffynonellau.<sup>39</sup>

4.48 Er enghraifft, gallai gwybodaeth sy'n dod o'r canfas gynnwys enw wedi ei ddileu oddi ar Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddychwelwyd lle na nodwyd bod yr etholwr wedi marw, neu Ffurflen Ymholiad y Cartref a ddanfonwyd drwy'r post yn cael ei dychwelyd fel un na ellid ei danfon/anfon yn ôl i'r gyrrwr/ddim yn y cyfeiriad hwn. Yn yr achosion hyn, byddai angen tystiolaeth o un ffynhonnell a gwybodaeth o ail ffynhonnell hefyd cyn y gellid gwneud penderfyniad i ddileu'r etholwr. Rhaid i'r ddwy ffynhonnell o dystiolaeth fod yn wahanol; mae dwy eitem a bostiwyd a gaiff eu dychwelyd heb gael eu dosbarthu yn debygol o fod yn wybodaeth o ddwy ffynhonnell.

4.49 Os oes gennych wybodaeth o Ffurflen Ymholiad y Cartref sy'n nodi efallai nad yw person bellach yn gymwys, dylech gymryd camau i ganfod a oes gwybodaeth o ffynonellau eraill a allai gefnogi dileu. Gallai hyn gynnwys gwirio data lleol megis cofnodion y dreth gyngor. Os oes gennych wybodaeth o ffynhonnell ar wahân i'r etholwr eu hunain, gallech ceisio cysylltu â'r etholwr yn uniongyrchol dros y ffôn, e-bost neu drwy'r post i wneud ymholiadau.

4.50 Fel arall, gallwch gynnal adolygiad o hawl y person i aros yn gofrestredig.

4.51 Unwaith y byddwch wedi penderfynu nad oes gan berson bellach yr hawl i aros yn gofrestredig yn y cyfeiriad dan sylw, dylech ddileu eu cofnod oddi ar y gofrestr a gweithredu hyn wrth gyhoeddi'r hysbysiad nesaf o newid neu pan gyhoeddir y gofrestr ddiwygiedig, pa un bynnag sydd gyntaf.

4.52 Unwaith y byddwch wedi gweithredu'r dilead, does dim angen i chi anfon cadarnhad ysgrifenedig o'ch penderfyniad at yr etholwr lle mae'r dilead o ganlyniad i:<sup>40</sup>

- wybodaeth gan ddwy ffynhonnell wahanol
- gwybodaeth bod etholwr wedi marw fel y nodir ym mharagraff **4.12**
- hysbysiad drwy Wasanaeth Digidol IER neu Swyddog Cofrestru Etholiadol arall bod person sydd wedi'u cofrestru yn eich ardal chi wedi gwneud cais i gofrestru rhywle arall **ac** wedi nodi eu bod wedi peidio â phreswyllo yn y cyfeiriad yn eich ardal chi, **a** bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi caniatáu'r cais

4.53 Gallwch fodd bynnag ddewis cadarnhau'r dilead os credwch y byddai'n ddefnyddiol gwneud, y gellir ei wneud dros e-bost os oes gennych gyfeiriad e-bost yr unigolion.



Mae Pennod 9 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau pellach ar ddileu cofnodion oddi ar y gofrestr ac apeliadau yn erbyn dileadau. Mae Pennod 10 yn cynnwys canllawiau ar weinyddu'r adolygiadau cofrestru.

## Prosesau olrhain lle na chafwyd ymateb

4.54 Mae'n ofynnol i chi yn ôl y gyfraith gymryd camau penodol i gael ymateb o eiddo sydd heb ymateb i'r Ffurflen Ymholiad y Cartref gychwynnol.<sup>41</sup>

4.55 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol fod gennych broses yn ei lle i holi eich system EMS er mwyn nodi a ydych wedi derbyn y wybodaeth cyn i'r system gynhyrchu nodyn atgoffa Ffurflen Ymholiad y Cartref. Bydd eich cyflenwr EMS (os yn berthnasol) yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch sut i wneud hyn.

4.56 Nid yw'r un o'r camau a nodir isod yn berthnasol os ar ôl arolygu cofnodion eraill y cyngor eich bod yn dod i'r casgliad nad oes neb yn preswyllo yn y cyfeiriad, neu ei fod yn safle busnes yn unig.

4.57 Mae eithriad i'r gofyniad i gymryd camau penodol i'r rhai nad ydynt yn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref. Os yw Ffurflen Ymholiad y Cartref wedi ei rhoi fel rhan o'r canfas, a'ch bod wedi penderfynu ar gais cofrestru llwyddiannus ar gyfer unigolyn sy'n preswyllo yn yr eiddo hwnnw a bod yr ymgeisydd wedi nodi yn eu cofrestriad mai nhw yw'r unig berson sy'n 16 oed neu'n hŷn (14 neu'n hŷn yn yr Alban) yn y cyfeiriad, nid oes gofyn i chi ddilyn fyny gyda'r Ffurflen Ymholiad y Cartref ar gyfer yr eiddo hwnnw.<sup>42</sup> Efallai y byddwch yn dewis gwneud, a dylech wneud os oes gennych reswm i gredu o gofnodion eraill, bod amgylchiadau wedi newid o bosib.

## 'Nodiadau atgoffa' Ffurflen Ymholiad y Cartref

4.58 Os ydych chi wedi rhoi Ffurflen Ymholiad y Cartref i gyfeiriad a heb dderbyn gwybodaeth mewn ymateb o fewn cyfnod rhesymol o amser, mae'n rhaid i chi roi ail Ffurflen Ymholiad y Cartref i'r cyfeiriad hwnnw.<sup>43</sup> Gallwch ymweld â'r cyfeiriad ar unrhyw adeg i gael y wybodaeth sydd ei hangen.<sup>44</sup>

4.59 Os nad ydych yn derbyn yr wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol o amser ar ôl i chi roi'r ail Ffurflen Ymholiad y Cartref, rhaid i chi roi trydedd Ffurflen Ymholiad y Cartref.<sup>45</sup> Os nad ydych eisoes wedi ymweld erbyn yr amser hwn, gallech ystyried gwneud hynny cyn neu ar yr un pryd â rhoi'r drydedd Ffurflen Ymholiad y Cartref. Rhaid i'r nodyn atgoffa Ffurflen Ymholiad y Cartref atgoffa fod yr un fath â'r ffurf wreiddiol a anfonwyd.

4.60 Er na ddiffinnir cyfnod 'rhesymol' o amser mewn deddfwriaeth, yn ein barn ni ddylai hyn fod yn hirach na 28 diwrnod a gall mewn rhai amgylchiadau fod yn fyrrach (er enghraifft, lle'r ydych yn nesáu at ddiwedd y canfas neu lle mae etholiad i'w gynnal). Mae hyn yn golygu unwaith y byddwch wedi cyhoeddi Ffurflenni Ymholiad y Cartref i eiddo yn eich ardal gofrestru, dylech anfon nodyn atgoffa i eiddo nad ydynt wedi ymateb o fewn 28 diwrnod. Os nad yw'r nodyn atgoffa cyntaf yn cynhyrchu ymateb, dylai ail nodyn atgoffa gael ei anfon o fewn 28 diwrnod i'r nodyn atgoffa cyntaf.

## Gwneud o leiaf un ymweliad

4.61 Os ydych wedi rhoi trydedd Ffurflen Ymholiad y Cartref a heb gael unrhyw ymateb, mae'n ofynnol i chi yn ôl y gyfraith wneud o leiaf un ymweliad i'r cyfeiriad i'r diben o gael y wybodaeth ofynnol os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes.<sup>46</sup>



Yn yr Alban, er bod y ddyletswydd yn Adran 9A i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod eich cofrestriadau yn gywir ac yn gyflawn yn dal yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ fel rhan o'r canfas blyneddol wedi'i ehangu i bobl ifanc 14 a 15 oed. Nid oes angen cynnal ymweliad personol â phobl ifanc 14 neu 15 oed nad ydynt wedi ymateb i Wahoddiad i Gofrestru unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Os na fyddwch yn ymweld â'r cartref, dylech ystyried pa ddulliau eraill y gallwch eu defnyddio i annog ymateb gan y sawl yn y grŵp oedran hwn. Er enghraifft, gallech gysylltu â phobl ifanc dan 16 oed drwy e-bost os oes gennych eu cyfeiriad e-bost. Hefyd, fel rhan o unrhyw weithgarwch dilynol ar ôl canfas, efallai y cewch gyfle i atgoffa unrhyw oedolion sy'n byw mewn cyfeiriad bod gan bobl ifanc 15 oed a rhai pobl ifanc 14 oed hawl i gofrestru gan ofyn iddynt annog unrhyw bobl ifanc 14/15 oed yn y cyfeiriad i wneud cais i gofrestru ar-lein.

Dylech hefyd weithio gyda phartneriaid sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc neu sydd â dylanwad arnynt ac adlewyrchu hyn yn eich cynlluniau. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 2 o [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflawni gweitharwch cofrestru etholiadol](#). Rydym wedi darparu canllawiau penodol ar ymgysylltu â phobl ifanc a chyrraeddwy'r yn ein [taflen tactegau enghreifftiol](#) ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed.

4.62 Gallwch ddewis ymweld ar unrhyw adeg yn y broses, er enghraifft ar yr un pryd â chyflwyno unrhyw un o'r Ffurflenni Ymholiad y Cartref. Sut bynnag, mae gennych ddyletswydd i gymryd pob cam angenrheidiol i gydymffurfio â'ch dyletswydd i gynnal y gofrestr etholiadol, sy'n cynnwys cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ, ac felly efallai eich bod eisoes wedi bodloni'r gofyniad hwn erbyn i chi benderfynu nad ydych wedi derbyn ymateb i'r drydedd Ffurflen Ymholiad y Cartref. Fodd bynnag, rhaid i chi fod wedi gwneud ymweliad penodol i'r diben o gael y wybodaeth sy'n ofynnol ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref. Yn ein barn ni,

mae hyn yn golygu ymweliad lle'r ydych wedi ceisio cysylltu'n bersonol gyda pherson yn y cyfeiriad.



Yn yr Alban, er bod y ddyletswydd yn Adran 9A i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod eich cofrestradau yn gywir ac yn gyflawn yn dal yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ fel rhan o'r canfas blynyddol wedi'i ehangu i bobl ifanc 14 a 15 oed.



Mae Pennod 2 [Rhan 2: 'Y Fframwaith Cofrestru'](#) yn gosod allan eich dyletswyddau o dan Adran 9A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.



#### **Rhannu arfer da**

Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'r dulliau a ddefnyddiwyd gan rai Swyddogion Cofrestru Etholiadau er mwyn sicrhau canfas llawn ac effeithiol o eiddo yn ein hadnodd '[Canfasio personol effeithiol](#)'..

4.63 Os ydych wedi gwneud ymweliad dim ond i'r diben o adael ffurflen yn y cyfeiriad, ni fyddai hyn yn ein barn ni'n bodloni'r gofyniad. Fodd bynnag, os ar ymweliad o'r fath fod y person sy'n gwneud yr ymweliad yn siarad ag aelod o'r cartref a cheisio cael y wybodaeth sy'n ofynnol ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref, mae'n debygol y bodlonwyd y gofyniad i wneud ymweliad. Fel gyda phob cam o'r broses hon, dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnodion er mwyn cael trywydd archwilio clir o'r camau a gymerwyd gennych fel rhan o'r broses Ffurflen Ymholiad y Cartref. Sut bynnag, dylech ystyried gwneud ymweliad pellach os yw hyn yn debygol o arwain at i chi gael y wybodaeth ofynnol.

## **Cosb am fethu ag ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref neu ddarparu gwybodaeth ffug**

4.64 Yn ôl y gyfraith rhaid i berson sydd wedi derbyn Ffurflen Ymholiad y Cartref ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ond nid oes unrhyw ofyniad am i'r ffurflen ei hun gael ei dychwelyd.<sup>47</sup> Mae hyn yn cynnwys lle cafwyd newidiadau i unrhyw wybodaeth a ragargraffwyd ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref, neu lle darperir gwybodaeth newydd.

4.65 Mae cosb droseddol o ddirwy hyd at uchafswm o £1,000 am fetu â rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.<sup>48</sup>

4.66 Y gosb am roi gwybodaeth ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol yw hyd at chwe mis yn y carchar, dirwy ddiderfyn yng Nghymru a Lloegr neu ddirwy o hyd at £5,000 yn yr Alban.<sup>49</sup>

# 5 Cyhoeddi'r gofrestr

## Hysbysiadau misol o newid

5.1 Rhaid i ddiweddariadau i'r gofrestr gael eu cyhoeddi ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis, ac eithrio efallai na fyddwch yn cyhoeddi hysbysiad misol o newid yn y mis yr ydych yn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ac yn y ddau fis cyn y diwrnod hwnnw.<sup>50</sup> Os yw'r gofrestr yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd mae hyn yn golygu na fyddwch yn cyhoeddi hysbysiad misol o newid ym mis Medi, Hydref a Thachwedd. Os yw'n cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr, ni fyddwch yn cyhoeddi hysbysiad misol o newid ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

5.2 Rydym wedi cyhoeddi [dogfen sy'n dangos pryd y mae'n rhaid i ddiweddariadau misol gael eu cyhoeddi](#), ac, yn seiliedig ar y dyddiadau hynny, pryd y mae'n rhaid gwneud ceisiadau a phryd y mae'n rhaid iddynt gael eu penderfynu gennych chi er mwyn eu cynnwys mewn diweddariad misol penodol, neu mewn hysbysiad o newid etholiad.

## Amseriad cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig

5.3 Mae'n rhaid i chi gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr.<sup>51</sup> Yr unig eithriad i'r rheol hon yw os cafwyd etholiad yn ystod y canfas (gweler ['etholiadau yn ystod y canfas'](#) isod am ragor o wybodaeth).

5.4 Mae'r gofyniad i gyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr yn golygu bod gennych y disgrisiwn i benderfynu cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr cyn y dyddiad hwn. Nid yw dies non yn berthnasol yn yr achos hwn, felly mae'r gofyniad i gyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr (neu 1 Chwefror) yn gymwys hyd yn oed os yw'r dyddiad ar benwythnos neu ŵyl y banc. Felly, gallwch gyhoeddi'r gofrestr ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ar ŵyl y banc os byddwch yn dymuno.

**Tabl 1: Dyddiadau cau gwneud cais a phenderfynu sy'n berthnasol i'r gofrestr ddiwygiedig**



Digwyddiad	Dyddiadau os yw'r gofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar 1 Rhagfyr		Dyddiadau os yw'r gofrestr yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd
	Yng Nghymru a Lloegr	Yn yr Alban	
Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau newydd i gofrestru	21 Tachwedd 2019	21 Tachwedd 2019	<b>23 Hydref 2019</b> (6 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau penderfynu)
Dyddiad cau penderfynu	29 Tachwedd 2019	29 Tachwedd 2019	<b>31 Hydref 2019</b> (diwrnod gwaith olaf y mis cyn y mis pan fydd y gofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi)
Dyddiad cau cofrestru dienw a phenderfynu	29 Tachwedd 2019	29 Tachwedd 2019	<b>31 Hydref 2019</b> (diwrnod gwaith olaf y mis cyn y mis pan fydd y gofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi)
Dyddiad cau ar gyfer newidiadau i gofnodion ar y gofrestr a dileu cofnodion oddi ar y gofrestr	29 Tachwedd 2019	29 Tachwedd 2019	<b>31 Hydref 2019</b> (diwrnod gwaith olaf y mis cyn y mis pan fydd y gofrestr ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi)
Cyhoeddi	Erbyn 1 Rhagfyr 2019 <sup>iv</sup>	Erbyn 1 Rhagfyr 2019	<b>Unrhyw ddyddiad yn ystod mis Tachwedd</b>

5.5 Felly, mae cyhoeddi ym mis Tachwedd yn golygu na fyddai'r gofrestr ddiwygiedig yn adlewyrchu unrhyw etholwyr newydd a oedd wedi gwneud cais i gofrestru ar ôl 23 Hydref, ac na fyddai'n adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau eraill na chofnodion a gafodd eu dileu y penderfynwyd arnynt ar ôl 31 Hydref. Er bod y broses gofrestru yn parhau drwy gydol y flwyddyn, mae cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn garreg filltir bwysig. Bydd cyhoeddi ar 1 Rhagfyr yn helpu i sicrhau

<sup>iv</sup> Os cynhelir etholiad lle mae'r diwrnod pleidleisio yn syrthio rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr 2019, gellir gohirio cyhoeddi'r gofrestr tan **1 Chwefror 2020** (Adrannau 13(1A), 13(2) ac 13 A(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

bod y gofrestr ddiwygiedig mor gywir a chyflawn â phosibl a bydd yn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddarpar etholwyr gael eu cynnwys.

5.6 Pryd bynnag y byddwch yn penderfynu cyhoeddi, dylech allu egluro'r rhesymau dros eich penderfyniad. Ceir canllawiau ar gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig pan gaiff etholiad ei gynnal yn ystod y canfas ym mharagraffau **2.53** i **2.58**.

## Cynnwys y gofrestr ddiwygiedig

5.7 Mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi:

- y gofrestr lawn o etholwyr ar gyfer pob math etholiadau wedi'u cyfuno i un gofrestr cyn belled ag y bo modd, ac yn cynnwys y marcwyr etholfraint priodol
- y gofrestr a gafodd ei golygu sydd yn gopi union o'r gofrestr lawn, ond heb y rhai sydd wedi dewis i'w manylion beidio ymddangos arni
- y rhestr o etholwyr tramor



Yn yr Alban, bydd y gofrestr llywodraeth leol yn cynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed fel etholwyr llawn. Hefyd, mae gan bobl ifanc 15 oed a rhai 14 oed hawl i gael eu cynnwys ar y gofrestr llywodraeth leol fel 'cyrhaeddwr'. At ddiben y gofrestr llywodraeth leol yn yr Alban, cyrhaeddwr yw rhywun sy'n cael ei ben-blwydd yn 16 oed erbyn diwedd y deuddeg mis ar ôl y 1 Rhagfyr ar ôl y 'dyddiad perthnasol' (ceir rhagor o wybodaeth am y 'dyddiad perthnasol' ym Mhennod 3 o [Rhan 2: Fframwaith cofrestru](#)).

Felly, bydd angen i'r gofrestr gyfunol nodi'r dyddiad y bydd y sawl sydd wedi'u cynnwys arni sydd dan 18 oed yn dod yn 18 oed er mwyn dangos yn glir eu cymhwyster i bleidleisio mewn etholiadau gwahanol.

Ni ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ar bob ifanc dan 16 oed ar **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddwyd neu sydd ar gael fel arall, heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 11 o [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy'r flwyddyn](#).

### Disgrifio'r gofrestr lawn a'r gofrestr a gafodd ei golygu

Y termau 'cofrestr lawn a'r gofrestr a gafodd ei golygu' yw'r termau technegol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth. Rhaid defnyddio'r termau 'cofrestr etholiadol' a 'chofrestr agored' i ddisgrifio'r gofrestr lawn a'r gofrestr a gafodd ei golygu i aelodau'r cyhoedd, i'w gwneud yn haws i ddeall pwrpas pob cofrestr a sut y mae'n cael ei defnyddio. Mewn achosion penodol lle'r ydym yn sôn am y gofrestr a gafodd ei golygu yn y cyd-destun hwn yn y canllawiau, cyfeiriwn at y gofrestr a

gafodd ei golygu fel y 'gofrestr agored'. Fel arall rydym yn defnyddio'r term 'y gofrestr a gafodd ei golygu'.

## Y gofrestr lawn

5.8 Mae'r gofrestr lawn o etholwyr yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio fel etholwr arferol. Mae hefyd yn cynnwys enwau'r rhai sydd wedi cofrestru fel etholwyr categori arbennig, ac eithrio yn achos y rhai a gofrestrwyd yn ddienw, ac os felly nid yw ond yn cynnwys cofnod, heb ddangos yr enw na'r cyfeiriad.



Yn yr Alban, ni ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ar bob ifanc dan 16 oed ar **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddwyd neu sydd ar gael fel arall, heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 11 o [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy'r flwyddyn](#).

5.9 Rhaid i'ch cofrestr ddiwygiedig ymgorffori'r holl ychwanegiadau a diwygiadau i'r gofrestr yr ydych wedi eu pennu erbyn y dyddiad cau perthnasol.<sup>52</sup> Ni ellir trin gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i Ffurflen Ymholiad y Cartref fel cais i gofrestru, ac ni all enw a nodwyd trwy wirio cofnodion lleol gael eu hychwanegu at y gofrestr. Dim ond pan wneir cais a'i benderfynu'n llwyddiannus y gall unigolyn gael ei ychwanegu at y gofrestr. Dylech hefyd weithredu unrhyw ddileadau yr ydych wedi penderfynu arnynt ers cyhoeddi'r hysbysiad o newid diwethaf, ac mewn pryd i gael eu hadlewyrchu yn y gofrestr ddiwygiedig.

5.10 Daeth y cyfnod pontio i gofrestru etholiadol i ben gyda chyhoeddi cofrestr ddiwygiedig 2015 (oedd yn ofynnol erbyn 1 Rhagfyr 2015). Ers cyhoeddi cofrestr ddiwygiedig 2015, bydd pob etholwr ar y gofrestr un ai wedi eu cadarnhau neu wedi gwneud cais llwyddiannus i gofrestru'n unigol.

5.11 Mae un eithriad i hyn, sy'n berthnasol i rai etholwyr categori arbennig adnewyddodd eu datganiad yn unol â'r hen system a'r darpariaethau pontio. Nid oedd gofyn i etholwyr categori arbennig oedd wedi'u cofrestru cyn cyflwyno cofrestru etholiadol unigol (h.y. cyn 10 Mehefin 2014 yng Nghymru a Lloegr a chyn 19 Medi 2014 yn yr Alban) i gofrestru yn unol â'r system newydd hyd nes eu bod yn adnewyddu eu cofrestriad am y tro cyntaf o dan gofrestru etholiadol unigol.<sup>v</sup> Gan fod cofrestriad aelod o Luoedd EM (neu eu priod neu bartner sifil) yn para 5 mlynedd, mae'n bosib felly bod rhai pleidleisiwr sy'n gwasanaethu dal wedi'u cofrestru yn unol â'r 'hen' ddarpariaethau cofrestru. Pan fydd datganiad y

<sup>v</sup>Lle bo dyddiad adnewyddu etholwyr categori arbennig presennol yn syrthio o fewn y tri mis gan gychwyn gyda'r pontio i IER, nid oedd angen i'r etholwr categori arbennig ddarparu dynodyddion personol ac roeddent yn gallu adnewyddu eu cofrestriad yn unol â'r 'hen' ddarpariaethau cofrestru. Yng Nghymru a Lloegr, rhedodd y cyfnod o dri mis rhwng 10 Mehefin 2014 a 9 Medi 2014 (cynwysedig). Yn yr Alban rhedodd y tri mis o 19 Medi 2014 i 18 Rhagfyr 2014 (cynhwysiol).

pleidleisiwr sy'n gwasanaethu ddod i ben, neu fod eu hamgylchiadau'n newid, bydd angen iddynt wneud cais newydd i gofrestru.

## Y gofrestr a gafodd ei golygu

5.12 Mae'n rhaid i chi gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr a gafodd ei golygu ar y diwrnod gwaith cyntaf o **bob** mis.<sup>53</sup> Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod y cyfnod canfas.

5.13 Fodd bynnag, ni allwch ond cynnwys neu ddileu etholwr oddi ar y gofrestr a gafodd ei golygu os ydynt eisoes yn etholwr presennol sydd wedi eu cynnwys ar y gofrestr lawn neu ar unrhyw hysbysiad o newid.<sup>54</sup> Mae hyn yn golygu yn y misoedd pan fo cyhoeddiad newidiadau i'r gofrestr lawn yn cael ei atal dros dro, rhaid i'r gofrestr ddiwygiedig a gafodd ei golygu beidio â chynnwys manylion unrhyw etholwyr newydd y mae eu manylion eto i'w hychwanegu at y gofrestr lawn. Fodd bynnag, bydd angen adlewyrchu unrhyw geisiadau gan etholwr presennol i newid eu statws eithrio allan.

5.14 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau gwbl integredig o'r gofrestr yn hytrach na dim ond hysbysiad yn nodi'r newidiadau.<sup>55</sup> Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi argraffu cofrestr a gafodd ei golygu lawn bob mis, dim ond os ydych yn cynhyrchu un i rywun sydd wedi gofyn amdani.

5.15 Rhaid i chi hefyd gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig a gafodd ei golygu ar yr un pryd ag y byddwch yn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.<sup>56</sup> Mae'n rhaid i'r gofrestr a gafodd ei golygu gyhoeddedig fod yn yr un fformat â'r gofrestr lawn a rhaid iddi gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag etholwr nad yw wedi eithrio allan fel y mae'n ymddangos ar y fersiwn lawn o'r gofrestr,<sup>57</sup> megis y marcwyr fel yr amlinellir isod.



Yn yr Alban, caiff person dan 16 oed ei eithrio o'r gofrestr ddiwygiedig. Ni ddylid cynnwys manylion unrhyw berson dan 16 oed yn **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddir, yn cynnwys y gofrestr ddiwygiedig.



Mae Pennod 11 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar y broses i newid dewisiadau eithrio allan a'r gofrestr a gafodd ei golygu.

## Fformat y gofrestr

5.16 Nid yw fformat y gofrestr yn rhagnodedig ond rhaid iddi gynnwys, ac eithrio rhai etholwyr categori arbennig fel y nodir ym mharagraff **5.19** isod, enw, cyfeiriad a rhif etholwr pob etholwr cymwys y mae ei gais i gofrestru wedi cael ei benderfynu erbyn y dyddiad cau perthnasol.<sup>58</sup>



Yn yr Alban, ni ddylid cynnwys manylion unrhyw berson dan 16 oed yn **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddir, yn cynnwys y gofrestr a gafodd ei golygu.<sup>59</sup>

5.17 Mae'n rhaid i chi rannu'r gofrestr i ddsbarthiadau pleidleisio a rhoi set unigryw o lythrennau i bob un.<sup>60</sup> Rhaid i chi roi rhif i bob etholwr<sup>61</sup> a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol dylai'r rhifau hyn gael eu dyrannu yn y fath fodd fel bod y niferoedd yn rhedeg yn ddilyniannol ym mhob rhan o'r gofrestr. Gelwir y llythrennau dosbarth etholiadol a'r rhif gyda'i gilydd yn rif etholwr.



Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar gynnal [adolygiadau o ddsbarthiadau etholiadol, manau pleidleisio](#) a gorsafodd pleidleisio sydd ar gael ar ein gwefan.

5.18 Rhaid trefnu'r cofnodion ar y gofrestr sy'n dangos pob etholwr arferol yn ôl trefn stryd, a dim ond os nad yw'n rhesymol ymarferol eu rhestru yn ôl stryd y gallir eu trefnu yn ôl enw neu gymysgedd o'r ddau ddull.<sup>62</sup>

5.19 Rhaid cael adran ar ôl yr etholwyr cyffredin mewn unrhyw ddsbarth etholiadol wedi'i marcio 'etholwyr eraill', sy'n cynnwys unrhyw etholwyr categori arbennig nad ydynt yn cael eu rhestru ym mhrif gorff y gofrestr, wedi'u rhestru yn ôl cyfenw yn nhrefn yr wyddor a heb gyfeiriad, yn cael ei ddilyn gan unrhyw etholwyr dienw cofrestredig.<sup>63</sup>



Mae Pennod 7 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn](#) yn gosod allan yn fanwl sut y dylid cynnwys etholwyr categori arbennig ar y gofrestr.

## Marcwyr y gofrestr

### Marcwyr etholfraint

5.20 Dylai enwau etholwyr na chânt ond pleidleisio mewn rhai etholiadau fod â llythrennau penodol cyn yr enwau ar y gofrestr.<sup>64</sup>

- E** yn dangos fod yr etholwr yn etholwr tramor sy'n arglwydd ac sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop
- F** yn dangos bod yr etholwr yn etholwr tramor sydd ond â hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU a Senedd Ewrop.
- G** yn dangos bod yr etholwr yn ddinesydd o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (ac eithrio gwledydd y Gymanwlad neu Weriniaeth Iwerddon) sydd ond â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.
- K** yn dangos bod yr etholwr yn ddinesydd o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (ac eithrio gwledydd y Gymanwlad neu Weriniaeth Iwerddon) sydd â'r hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop a llywodraeth leol.
- L** yn dangos bod yr etholwr yn arglwydd sy'n gymwys i bleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi ac sydd â'r hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop a llywodraeth leol.

Darperir marciwr ychwanegol (**U**) yn yr Alban i nodi ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (ac eithrio gwledydd y Gymanwlad neu Weriniaeth Iwerddon) sydd wedi nodi'n benodol eu dymuniad i gofrestru ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ond nad ydynt wedi gwneud cais i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol.<sup>65</sup> Dylech annog etholwyr o'r fath i gofrestru hefyd fel etholwyr llywodraeth leol, er y byddai angen defnyddio'r marciwr U lle nad yw'r etholwr yn ychwanegol yn gwneud cais arferol i gofrestru.

5.21 Dengys Tabl 2 enghraifft o beth o'r fformat ar gyfer cofrestr a gydag eglurhad sy'n cyd-fynd yn y golofn ochr dde.

**Tabl 2: Sampl o gofrestr etholiadol**

Rhif etholwr	Marciwr etholfraint	Enw	Cyfeiriad	Disgrifiad (heb ei ddangos ar y gofrestr)
1		Evans, Gareth	1, Y Stryd	Etholwr arferol; gall bleidleisio ym mhob etholiad
2	12/06/bbbb	Juba, Charlotte	2, Y Stryd	Cyrhaeddwr oedran; gall bleidleisio os yw'r etholiad ar neu ar ôl dyddiad a nodir
3	G	Chamberlain, Louise	2, Y Stryd	Etholwr llywodraeth leol yn unig
4	K	Mackenzie, Scott	3, Y Stryd	Etholwr llywodraeth leol a Senedd Ewrop yn unig
5	L	Pack, Daniel	4, Y Stryd	Arglwydd; cymwys i bleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi, ni all bleidleisio yn un o etholiadau Senedd y DU

## Etholwyr eraill

Rhif etholwr	Marciwr etholfraint	Enw	Cyfeiriad	Disgrifiad (heb ei ddangos ar y gofrestr)
6	F	Jolly, Simon		Etholwr tramor; ni all bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol
7		Watts, Julie		Etholwr lluoedd arfog; gall bleidleisio ym mhob etholiad
8	N			Etholwr dienw; gall bleidleisio ym mhob etholiad
9		N		Etholwr dienw; gall bleidleisio ym mhob etholiad (yr un effaith â chofnod 8 uchod ond opsiwn amgen)
10	GN			Etholwr dienw sy'n ddinesydd o aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd; gall bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn unig
11	G	N		Etholwr dienw sy'n ddinesydd o aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd; gall bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn unig (yr un effaith â chofnod 10 uchod ond opsiwn amgen)



Yn yr Alban, bydd angen i'r gofrestr gyfunol nodi'r dyddiad y bydd y sawl sydd wedi'u cynnwys arni sydd dan 18 oed yn dod yn 18 oed er mwyn dangos yn glir eu cymhwyster i bleidleisio mewn etholiadau gwahanol.

Ni ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ar bob ifanc dan 16 oed ar **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gyhoeddwyd neu sydd ar gael fel arall, heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 11 o [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy'r flwyddyn](#).

## Gohebiaeth yn dilyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig

5.22 Mae'r ffocws ar y nifer o bobl sydd wedi cofrestru ac sydd heb eu cofrestru yn uchel iawn, ac mae ganddo broffil uwch nag erioed. Felly dylech ddisgwyl bod cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn golygu ymholiadau i chi, y dylech chi fod yn barod i ymateb iddynt.

5.23 Os nad ydych eisoes wedi gwneud, dylech gysylltu â'ch tîm cyfryngau neu gyfathrebu i sicrhau eich bod yn gallu ymateb yn gyflym i unrhyw straeon lleol allai godi, yn enwedig os oes sôn wedi bod yn lleol o ran cofrestru etholiadol yn eich ardal chi.

5.24 Dylech ystyried rhoi datganiad i'r wasg yn cyhoeddi cyfanswm nifer y bobl sydd wedi eu cofrestru yn eich ardal chi, gan amlygu'r gwaith yr ydych wedi ei wneud i gofrestru pobl a pha waith ychwanegol sydd wedi ei gynllunio gennych. Fel rhan o hyn, dylech nodi bod dal cyfle i gofrestru mewn da bryd ar gyfer etholiadau nesaf sydd wedi'u trefnu, gan ei ddefnyddio i alw ar unrhyw un yn eich ardal nad ydynt wedi cofrestru i wneud nawr. O ystyried y posibilrwydd o ffocws parhaus gan y cyfryngau ynghylch cyfraddau cofrestru myfyrwyr a chyrhaeddwyr, efallai y bydd hi'n ddefnyddiol i chi amlygu'r gwaith yr ydych yn ei wneud gydag ysgolion, colegau, prifysgolion neu unrhyw grwpiau gwirfoddol perthnasol i annog cofrestru.

5.25 Gall eich tîm cyfryngau gael mwy o gyngor drwy gysylltu â swyddfa cyfryngau'r Comisiwn Etholiadol drwy ffonio 020 7271 0704, neu e-bostio [press@electoralcommission.org.uk](mailto:press@electoralcommission.org.uk).

## Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau a gynhelir ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig

5.26 Mae'r gofrestr ddiwygiedig yn dod i rym yn syth ar ôl ei chyhoeddi. Yn wahanol i hysbysiad o newid sydd ond yn effeithiol mewn etholiad os caiff ei gyhoeddi ar neu cyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad, mae'r gofrestr ddiwygiedig yn dod i rym ar unwaith ar gyfer pob etholiad.

5.27 Unwaith y byddwch wedi cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion pleidleisio mewn unrhyw etholiad gyda diwrnod pleidleisio ar neu ar ôl y dyddiad cyhoeddi, er bod angen i chi hefyd gyhoeddi dau hysbysiad newid etholiad interim a hysbysiad newid terfynol ar y pumed diwrnod gwaith cyn



yr etholiad.<sup>66</sup> Bydd enwebiad ymgeiswyr yn seiliedig ar y gofrestr sydd mewn grym ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad<sup>vi</sup>.



Mae Pennod 11 [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar gyhoeddi hysbysiadau o newid etholiad.

## Cardiau pleidleisio mewn etholiad ym mis Rhagfyr

5.28 Os cynhelir etholiad ym mis Rhagfyr, caiff yr hysbysiad etholiad ei gyhoeddi cyn 1 Rhagfyr, h.y. cyn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau anfon y cardiau pleidleisio at yr etholwyr cofrestredig hynny sydd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad.

5.29 Os caiff cardiau pleidleisio eu hanfon cyn cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad interim cyntaf (sef y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu), ni fyddai'r data a ddefnyddir i'w cynhyrchu yn adlewyrchu unrhyw ychwanegiadau na dileadau y penderfynwyd arnynt ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi.

5.30 Gan ystyried amgylchiadau penodol etholiad ym mis Rhagfyr, felly mae dadl gref mai'r adeg gyntaf y byddai'n ymarferol cyhoeddi cardiau pleidleisio fyddai yn union ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad interim cyntaf. Byddai'r dull gweithredu hwn hefyd yn helpu i sicrhau bod y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r cardiau pleidleisio yn adlewyrchu ychwanegiadau a dileadau y penderfynwyd arnynt yn ystod y cyfnod canfasio.

5.31 Hefyd, os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau, dylech felly weithio gydag ef er mwyn rhoi dulliau gweithredu ar waith i sicrhau y gellir anfon cardiau pleidleisio at etholwyr cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad interim cyntaf. Ceir rhagor o wybodaeth am y cais a'r dyddiadau cau ar gyfer penderfynu sy'n gymwys i hysbysiadau interim ym Mhennod 11 o [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#)

### Rhifau etholwyr

5.32 Er bod nifer y rhifau etholwyr a argraffwyd ar y cardiau pleidleisio yn debygol o fod yn wahanol i'r rhifau a ddyrennir pan gaiff y gofrestr ei diwygio, ni fydd hyn yn effeithio ar hawl person i bleidleisio. Bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau egluro i staff gorsafoedd pleidleisio yn eu sesiwn hyfforddi y bydd y

---

<sup>vi</sup> Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, yn lle ymddangos ar y gofrestr sy'n weithredol ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, rhaid i lofnodwyr ymddangos ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer cyngor etholaeth o fewn yr ardal awdurdod cyfunol **sy'n weithredol pan benderfynir ar yr enwebiad.**

rhifau etholwyr yn wahanol ac egluro iddynt na ddylent gyfeirio at y rhif etholwr sydd wedi'i argraffu ar y cerdyn pleidleisio wrth farcio'r gofrestr a chwblhau'r rhestr o rifau cyfatebol. Fel bob amser, dylai staff gorsafoedd pleidleisio ym mhob achos ofyn i'r etholwr gadarnhau ei enw a'i gyfeiriad a dylai ond ddefnyddio'r rhif fel y mae'n ymddangos yn erbyn manylion yr etholwr yng nghofrestr yr orsaf pleidleisio ar gyfer cwblhau'r rhestr o rifau cyfatebol. Dylai staff gorsafoedd pleidleisio gael eu briffio hefyd er mwyn sicrhau y gallant ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwr a all ofyn pam bod y rhif a gaiff ei alw allan a'i ysgrifennu ar y rhestr o rifau cyfatebol yn wahanol i'r un sydd wedi'i argraffu ar eu cerdyn pleidleisio.

## Pa gofrestr a ddefnyddir i gynnal etholiad ym mis Rhagfyr?

5.33 Pan fyd angen i ymgeisydd gael llofnodwyr, rhaid iddynt ymddangos ar y gofrestr sydd mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholad<sup>vii</sup>. Ar gyfer unrhyw etholiad ym mis Rhagfyr, a gan dybio y caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi ar 1 Rhagfyr ac na chafwyd unrhyw etholiadau eraill, cofrestr mis Medi fydd hon. Os caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi ym mis Tachwedd, gan dybio na chynhaliwyd unrhyw etholiadau eraill, cofrestr mis Awst fydd hon.

5.34 Fel y nodir ym mharagraffau **5.28 i 5.30**, os caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi ar 1 Rhagfyr, dylid defnyddio'r gofrestr fel y'i diwygiwyd gan yr hysbysiad newid etholiad interim cyntaf er mwyn cyhoeddi'r cardiau pleidleisio gynaf er mwyn sicrhau ei bod yn seiliedig ar y data mwyaf cyfoes.

5.35 Ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig, bydd yn weithredol ar unwaith a bydd yn gymwys ar gyfer unrhyw etholiad ar adeg ei chyhoeddi neu ar ôl hynny.

### Cyflenwi i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol lleol

5.36 Pan gaiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd hyn yn effeithio ar allu ymgeisydd a phlaid wleidyddol i ymgysylltu ag etholwyr ac ymgyrchu'n effeithiol. Felly, mae'n arbennig o bwysig bod ymgeiswyr a phleidiau sydd wedi gofyn am gael copi o'r gofrestr ddiwygiedig ac unrhyw wybodaeth ddiweddaraf a hysbysiadau etholiad o newid yn cael copiau cyn gynted â phosib ar ôl ei chyhoeddi.

---

<sup>vii</sup> Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, yn lle ymddangos ar y gofrestr sy'n weithredol ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, rhaid i lofnodwyr ymddangos ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer cyngor etholaeth o fewn yr ardal awdurdod cyfunol **sy'n weithredol pan benderfynir ar yr enwebiad.**

## Etholiadau pan gaiff yr hysbysiad newid etholiad terfynol ei gyhoeddi cyn y gofrestr ddiwygiedig

5.37 Caiff hysbysiad newid etholiad terfynol ei gyhoeddi 5 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Pan gaiff etholiad ei gynnal **ar ôl** cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig, ond caiff yr hysbysiad newid etholiad terfynol ei gyhoeddi **cyn** y gofrestr ddiwygiedig; y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestr fydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i gael eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig. Mae hyn oherwydd bod y gofrestr ddiwygiedig yn dod yn weithredol ar unwaith a bydd yn gymwys i unrhyw etholiad ar neu ar ôl ei chyhoeddi. Felly, er mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i gael eu cynnwys ar yr hysbysiad newid etholiad terfynol fydd deuddeg diwrnod gwaith cyn yr etholiad, gan fod y gofrestr ddiwygiedig wedi'i chyhoeddi ar ôl yr hysbysiad newid etholiadol terfynol a chyn yr etholiad, bydd yn weithredol ar gyfer yr etholiad hwnnw. Mae hyn yn golygu y gall darpar etholwyr newydd gyflwyno cais i gofrestru hyd at y dyddiad cau ar gyfer cael eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig (chwe diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu). Ar yr amod y gwneir penderfyniad ar ei gais erbyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu ar gyfer y gofrestr ddiwygiedig (sef y diwrnod gwaith cyn ei chyhoeddi), bydd ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad.

5.38 Fodd bynnag, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestr ar gyfer etholwyr newydd sydd am bleidleisio drwy'r post mewn etholiad o'r fath fyddai 5pm 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r cais am bleidlais bost nodi'r cyfeiriad y mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru ynddo neu wedi gwneud cais i gael eu gofrestru. Felly, os bydd etholwr newydd am bleidleisio drwy'r post, bydd angen iddo fod wedi gwneud cais i gofrestr erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost, h.y. erbyn 5pm 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

5.39 Bydd y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio ar gyfer etholwyr newydd sydd am bleidleisio drwy ddirprwy yr un fath ag ar gyfer y sawl sy'n pleidleisio'n bersonol (h.y. y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i gael eu cynnwys ar gofrestr 1 Rhagfyr). Mae hyn oherwydd y bydd y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ceisiadau i gael eu cynnwys ar gofrestr 1 Rhagfyr cyn y dyddiad cau arferol ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (5pm chwe diwrnod gwaith cyn yr etholiad).

5.40 Felly, bydd etholiadau ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig, ond lle y caiff yr hysbysiad newid etholiad terfynol ei gyhoeddi cyn y gofrestr ddiwygiedig yn golygu nifer o heriau gweinyddol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau. Os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau hefyd, bydd angen i chi gysylltu â nhw er mwyn:

- Trafod unrhyw oblygiadau ymarferol, yn cynnwys trosglwyddo data yn brydlon.

- Sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael mynediad i'r cofrestrau etholiadol perthnasol. Bydd angen i ymgeiswyr ac asiantiaid gael mynediad i'r gofrestr at ddibenion enwebu ac ymgyrchu. Dylech roi dull gweithredu ar waith er mwyn sicrhau y gall ymgeiswyr ac asiantiaid gael copi o'r gofresr yn brydlon. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r hysbysiad newid etholiad interim cyntaf iddynt cyn gynted â phosibl ar ôl ei gyhoeddi, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ddiweddaraf ddilynol ar ôl iddi gael ei chyhoeddi.
- Llunio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio. Ni ellir llunio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio nes i'r gofrestr ddiwygiedig gael ei chyhoeddi, a bydd angen rhoi dulliau gweithredu ar waith er mwyn sicrhau y gellir argraffu cofrestrau a'u coladu mewn amser cyfyngedig. Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau ystyried sut i reoli'r gwaith o baratoi blychau pleidleisio er mwyn hwyluso hyn.

5.41 Bydd yr heriau a'r atebion penodol yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol penodol. Os hoffech gael rhagor o ganllawiau neu os hoffech drafod eich sefyllfa benodol, cysylltwch â thîm [lleol y Comisiwn](#).

# 6 Ar ôl cyhoeddi

6.1 Mae'n bwysig eich bod yn parhau i gynnal y gofrestr ar ôl ei chyhoeddi er mwyn sicrhau ei bod mor gywir a chyflawn ag y bo modd.



Mae [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) yn cynnwys canllawiau ar nodi a thargedu etholwyr newydd posibl ar sail barhaus ac ar nodi a dileu etholwyr nad ydynt bellach yn gymwys i aros yn gofrestredig.

Ceir canllawiau ar adolygu a diwygio eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynlluniau cofrestru yn [Rhan 1: Cynllunio ar gyfer cyflwyno gweithgarwch cofrestru etholiadol](#). Bydd gwerthuso llwyddiant eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn hysbysu eich cynlluniau ar gyfer gwaith parhaus i nodi a thargedu etholwyr newydd posibl cyn yr etholiadau neaf a drefnwyd.

6.2 Byddwn yn parhau i gasglu data ategol yn dilyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig fel mewn blynyddoedd blaenorol.

## Data

6.3 Mae'r [fframwaith safonau perfformiad](#) yn gosod y math o ddata yr ydym yn disgwyl ei gasglu. Mae'r data hwn yn werthfawr i roi cyd-destun ac i'n cynorthwyo ni a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddeall cwmpas a maint yr heriau, ac mae'n dangos cynnydd wnaed mewn ymateb i'r heriau hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflenwyr Meddalwedd Rheoli Etholiadol i sicrhau bod y gofynion data yn cael eu hadeiladu i mewn i'r systemau i sicrhau bod casglu'r data'n cael ei wneud yn awtomatig. Dylai hyn helpu gwneud y broses mor syml â phosibl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac i helpu sicrhau cwblhau cofnodion yn gyson.

## RPF 29

6.4 Mae'n ofynnol i chi roi dogfen i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n nodi gwybodaeth ragnodedig benodol yn ymwneud â'r gofrestr ddiwygiedig.<sup>67</sup>

6.5 Yn yr Alban, rhaid darparu hyn hefyd i Weinidogion yr Alban a'r Cofrestrydd Cyffredinol Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau ar gyfer yr Alban.<sup>68</sup>

6.6 Bob blwyddyn mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac, yn yr Alban, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban, yn cyhoeddi ffurflen RPF29 i Swyddogion

Cofrestru Etholiadol i'r diben hwn. Mae'n ofynnol i chi gyflenwi'r wybodaeth hon cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.<sup>69</sup>

## Mynediad a darparu

6.7 Mae mynediad at y gofrestr etholwyr lawn yn gyfyngedig i'r rhai a ragnodir mewn deddfwriaeth. Mae gennych ddyletswydd i ddarparu copiâu o'r gofrestr etholwyr yn rhad ac am ddim i wahanol sefydliadau ac unigolion, ac mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfyngiadau ar sut y gwneir hyn. Mewn rhai achosion, rhaid i gofrestrau gael eu cyflenwi ar adeg eu cyhoeddi, ond mewn achosion eraill dim ond ar gais mae'r gofrestr yn cael ei chyflenwi.

6.8 Dylech gynnal cofnodion o bob person a sefydliad a gaiff y gofrestr, boed hynny pan gaiff ei chyhoeddi, drwy ei gwerthu, neu ar gais, i ddangos eich bod yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y cânt eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw.

6.9 Dylech sicrhau bod pob person/sefydliad sy'n cael y gofrestr, boed hynny pan gaiff ei chyhoeddi, drwy ei gwerthu, neu ar gais, yn ymwybodol o'r canlynol:

- mai dim ond at y diben(ion) a nodir yn y Rheoliadau y dylai ddefnyddio'r gofrestr
- unwaith y bydd y diben ar gyfer darparu'r gofrestr wedi dod i ben, y dylai ddinistrio'r gofrestr yn ddiogel
- y gosb ar gyfer camddefnyddio'r gofrestr

6.10 Caiff y wybodaeth a awgrymir uchod ei chynnwys yn y dalenni clawr sydd ar gael ar gyfer [gwerthu](#) a [darparu'r gofrestr etholiadol ar gais](#).



Yn yr Alban, dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff fydd yn gallu cael mynediad at ddata sy'n ymwneud â phobl ifanc dan 16 oed a defnyddio'r data hynny, ac ni ddylai unrhyw fersiwn o'r gofrestr nac unrhyw restrau pleidleisio absennol a gyhoeddir neu sydd ar gael fel arall gynnwys y data hynny. Fodd bynnag, gellir datgelu'r data:<sup>70</sup>

- i'r unigolyn ei hun (yn cynnwys er mwyn dangos ei fod yn rhoddwr a ganiateir, sy'n golygu bod yn rhaid datgelu'r data) neu berson a benodwyd ganddo fel dirprwy i bleidleisio ar ei ran
- at ddibenion ymchwiliad troseddol neu gamau troseddol sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr neu gynnal etholiadau
- mewn Ffurflen Ymholiad y Cartref a anfonir at gartref ar gyfer y canfas blyneddol, er na ddylid rhagargraffu dyddiad geni unrhyw berson dan 16 oed
- i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau mewn perthynas â chofrestru etholwyr neu gynnal etholiadau

Yr unig eithriad arall yw cyn etholiad Senedd yr Alban neu etholiad llywodraeth leol, gall y wybodaeth am bobl ifanc dan 16 oed **a fydd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad** (h.y. byddant wedi cael eu pen-blwydd yn 16 oed ar neu cyn diwrnod yr etholiad), at ddibenion neu mewn perthynas â'r etholiad, gael ei datgelu yn y gofrestr etholiadol, y rhestr o bleidleiswyr post, y rhestr o ddirprwyon a'r rhestr o ddirprwyon drwy'r post, a roddir i:<sup>71</sup>

- ymgeiswyr yn etholiadau Senedd yr Alban a llywodraeth leol at ddibenion etholiadol neu er mwyn cydymffurfio â'r rheolau ar roddion gwleidyddol
- y Swyddog Canlyniadau at ddibenion etholiadau Senedd yr Alban neu etholiadau llywodraeth leol
- y Comisiwn Etholiadol. Yn yr achos hwn, dim ond mewn perthynas â'i swyddogaethau yn ymwneud â rheoli rhoddion a chyhoeddi gwybodaeth am roddion y gall y Comisiwn ddefnyddio'r wybodaeth hon, ond nid yw'r ail yn golygu y gellir cyhoeddi enwau a chyfeiriadau pobl ifanc dan 16 oed.
- Swyddog Canlyniadau awdurdod lleol at ddibenion etholiad i awdurdod Parc Cenedlaethol. Yn yr achos hwn, dim ond at ddibenion etholiad awdurdod Parc Cenedlaethol y gellir defnyddio'r wybodaeth.

Ni ddylai'r wybodaeth a roddir cyn etholiad gynnwys dyddiadau geni, nac unrhyw beth arall a fyddai'n nodi bod pleidleisiwr dan 16 oed.

Ni ellir rhoi unrhyw wybodaeth am bobl ifanc dan 16 oed i unrhyw unigolion na chyrrff.



Ceir canllawiau manwl ar fynediad at a chyflenwad y gofrestr yn [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#).

Rydym hefyd wedi cynhyrchu [Rhestr o'r bobl sydd â hawl i gael y gofrestr etholiadol](#) a thaflen flaen ar gyfer [gwerthu](#), [cyflenwi ar gais](#) ac [archwilio'r](#) gofrestr etholiadol sy'n dangos sut y gellir ei ddefnyddio a'r gosb am ei gamddefnyddio.

6.11 Mae amseriad derbyn y gofrestr yn arbennig o bwysig i rai derbynwyr - er enghraifft, mae pleidiau gwleidyddol angen y gofrestr etholiadol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â gwirio rhoddion, yn ogystal â'i defnyddio at ddibenion ymgyrchu. Mae'n bwysig bod y gofrestr yn cael ei chyflenwi yn ddi-oed a dylech, felly, gyflenwi'r gofrestr i unrhyw un sydd â'r hawl i'w derbyn ar ei chyhoeddiad cyn gynted ag y bo modd a beth bynnag o fewn 5 diwrnod gwaith.



I allu cyflwyno canlyniadau [Safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cyflenwi'r gofrestr yn amserol i'r rheiny sydd â hawl ei dderbyn. I arddangos sut mae'r canlyniadau wedi eu bodloni, bydd angen i

chi osod y dyddiad[au] y cyflenwyd y gofrestr, ynghyd â'r dyddiad[au] y gofynnwyd amdano, ar gyfer y rhai sydd â hawl derbyn y gofrestr ar gais.



---

<sup>1</sup> Rheoliad 32ZA(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001

- 
- (Rheoliadau 2001), Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001 (RPR (yr Alban) 2001)
- <sup>2</sup> a9D(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1983
- <sup>3</sup> Rheoliadau 32ZB(1), (2), 32ZD(1) a (2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>4</sup> Rheoliad 32ZA(4A) o Reoliadau 2001
- <sup>5</sup> Rheoliad 32ZA(4B) o Reoliadau 2001
- <sup>6</sup> Adran 6 o RPA 1983
- <sup>7</sup> Rheoliad 31C o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>8</sup> Rheoliadau 32ZA(4), 32ZC(3)(d) a 32ZD(4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>9</sup> Rheoliad 32ZC(3)(za)(ii) o Reoliadau 2001, Rheoliad 32ZC(4) o RPA (yr Alban) 2001
- <sup>10</sup> Adran 9A(2) o RPA 1983 a Rheoliad 32ZB o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>11</sup> Rheoliad 32ZB(5A) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>12</sup> Adran 9A(2A) o RPA 1983
- <sup>13</sup> Adran 52(4) o RPA 1983
- <sup>14</sup> Adran 13(1)(a) o RPA 1983
- <sup>15</sup> Adran 3(1)(a) ac 13B(4) o RPA 1983
- <sup>16</sup> Adrannau 13AB ac 13B o RPA 1983
- <sup>17</sup> Rheoliad 32ZA(4A) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>18</sup> Rheoliad 32ZA(4B) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>19</sup> Rheoliad 32ZB(5A) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>20</sup> Rheoliad 32ZC(3)(a) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>21</sup> Rheoliad 32ZC(za)(ii) o Reoliadau 2001, Rheoliad 32ZC(4) o RPR (yr Alban) 2001
- <sup>22</sup> Rheoliad 32ZA(4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>23</sup> Rheoliad 32ZA(5)(a) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>24</sup> Rheoliad 32ZA(5)(b) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>25</sup> Rheoliad 32ZA(6)(b) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>26</sup> Rheoliad 32ZA(6)(c) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>27</sup> Rheoliad 32ZA(3)(k) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>28</sup> Rheoliad 32ZA(3)(k) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>29</sup> Rheoliad 32ZA(4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>30</sup> Rheoliad 32ZA(i) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>31</sup> Rheoliad 31C(2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>32</sup> Adran 13D, RPA 1983
- <sup>33</sup> Adran 13D, RPA 1983
- <sup>34</sup> Rheoliad 32ZA(3)(a) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>35</sup> Rheoliad 26(4) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>36</sup> Rheoliad 24(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>37</sup> Adrannau 9(2), 10ZC(1), 13 ac 13A o RPA 1983
- <sup>38</sup> Rheoliad 93A(2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>39</sup> Rheoliad 31c(2)(b)(i) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>40</sup> Rheoliad 31c(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- <sup>41</sup> Rheoliad 32ZB o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001

- 
- 42 Rheoliad 32ZB(5)(a) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 43 Rheoliad 32ZB(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 44 Rheoliad 32ZB(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 45 Rheoliad 32ZB(2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 46 Rheoliad 32ZB(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 47 Rheoliad 23(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 48 Rheoliad 23(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 49 Adrannau 13A(2) a (3) o RPA 1983
- 50 Adrannau 13A(2) a (3) o RPA 1983
- 51 Adran 13(1) o RPA 1983
- 52 Adran 13(2) o RPA 1983
- 53 Rheoliad 93(3B) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 54 Rheoliad 93(2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 55 Rheoliad 93 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 56 Rheoliad 93(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 57 Rheoliad 93(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 58 Adran 9(2) o RPA 1983
- 59 A13(1) o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng Oedran Pleidleisio) 2015
- 60 Rheoliadau 38 a 39 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 61 Adran 9(3) o RPA 1983
- 62 Rheoliadau 41(1) a (2) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 63 Rheoliad 41(3) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 64 Rheoliad 42 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 65 Rheoliad 42(4) o RPR (yr Alban) 2001
- 66 Adrannau 13AB ac 13B o RPR 1983
- 67 Rheoliad 44 o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 68 Rheoliad 44 o RPR (yr Alban) 2001
- 69 Rheoliad 44(1) o Reoliadau 2001, RPR (yr Alban) 2001
- 70 Adran 14 o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng Oedran Pleidleisio) 2015
- 71 Adrannau 14(3) a (4) o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng Oedran Pleidleisio) 2015